



Cyngor Sir Penfro

Cynllun Datblygu Lleol (hyd at 2021)

(Mabwysiadwyd 28 Chwefror 2013)

Adroddiad Adolygiad Drafft - Fersiwn
Ymgynghori Cyn-adneuo
Rhagfyr 2018

Crynodeb Gweithredol

Mae Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 yn gofyn bod Cyngor Sir Penfro'n cynnal adolygiad o'r Cynllun Datblygu Lleol (CDLI) o leiaf bob 4 mlynedd wedi ei fabwysiadu. Mabwysiadwyd y CDLI gan yr Awdurdod ar 28 Chwefror 2013 ac mae'n para hyd 31 Rhagfyr 2021. Dechreuodd yr adolygiad o'r Cynllun Datblygu Lleol ar 5 Mai 2017 yn dilyn etholiadau lleol, a chyda chytundeb Llywodraeth Cymru. Rhagwelir y bydd CDLI2 yn para hyd ddiwedd 2033.

Mae'r Adroddiad Adolygiad hwn yn ystyried ymhle mae angen newid y Cynllun Datblygu Lleol a pham. Wrth benderfynu beth sydd angen ei newid, mae'r Awdurdod wedi ystyried newidiadau cyd-destunol allweddol, fel newidiadau i bolisi cenedlaethol Llywodraeth Cymru a newidiadau deddfwriaethol, diweddariadau i'r sail dystiolaeth sy'n arwydd bod angen newid y Cynllun, a'r Adroddiadau Monitro Blynyddol (AMB) a gyhoeddir gan yr Awdurdod. Mae'r rhain yn dangos a ydy'r Cynllun yn gweithio ac a oes meysydd sy'n peri gofid y dylid eu hystyried yn yr adolygiad.

Mae newid cyd-destunol sylweddol yn cynnwys Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a'r angen i bartneriaid y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus gyhoeddi Cynllun Llesiant; Deddf Cynllunio Cymru, 2015; Deddf yr Amgylchedd, 2016 a Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru), 2016. Mae newidiadau cyd-destunol eraill yn cynnwys diwygiadau i bolisiau cynllunio cenedlaethol ac ansicrwydd parhaus ynghylch ad-drefnu llywodraeth leol a'r economi ehangach.

Ceir ansicrwydd pellach ynghylch yr economi a deddfwriaeth Ewropeaidd o ystyried penderfyniad y DU i adael yr UE.

Yn ôl y rhagamcaniadau cyfredol (ar sail 2014) ar gyfer poblogaeth ac aelwydydd Sir Benfro, mae poblogaeth Sir Benfro'n debygol o leihau dros y cyfnod i 2039, a hynny cymaint â rhyw 1,500 o bobl (1.2%), gyda gostyngiadau ym mhob grŵp oedran heblaw'r rheini sy'n 75 oed a hŷn. Bydd mwyafrif y gostyngiad hwn yn digwydd ar ôl diwedd cyfnod cynllun CDLI2. Yn ystod CDLI2 (a ddaw i ben 31 Rhagfyr 2033), rhagwelir y bydd y boblogaeth yn gostwng tua 250 o bobl yn unig.

Fodd bynnag, mae'r ffigurau cyffredinol hyn ar gyfer Sir Benfro yn celu gwahaniaethau yn y newid yn y boblogaeth yn ardal Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro a Sir Benfro y ti allan i'r Parc Cenedlaethol (Sir Benfro-allan). Tra bo disgwyl i boblogaeth y Parc Cenedlaethol ddirywio dros gyfnod y cynllun, mae disgwyl y bydd poblogaeth Sir Benfro-allan gynyddu o oddeutu 3,088 o bobl. Rhagwelir y bydd y cynnydd yn y boblogaeth yn deillio o fewnfudo, a bydd yn gwrthsefyll gostyngiad disgwyledig mewn genedigaethau a chynnydd blynyddol mewn marwolaethau o fewn y boblogaeth sy'n heneiddio'n naturiol.

Rhagamcanir hefyd y bydd nifer yr aelwydydd yn Sir Benfro yn cynyddu (rhagamcanir y bydd 56,400 ohonynt yn 2039, wedi lleihau o fwyafswm disgwyledig o 56,700 rhwng

2029 a 2034)¹ ac y bydd eu maint yn gostwng i 2.11 o bobl ar gyfartaledd i bob aelwyd, a 2.16 o bobl i bob aelwyd y tu allan i'r Parc Cenedlaethol wedi'i sbarduno gan gynydd yn y boblogaeth mewn grwpiau hŷn.

Mae'r AMB yn amlygu meysydd sy'n peri gofid mewn perthynas â'r canlynol.

- Cyfraddau gwagle safleoedd adwerthu a masnachol yng nghanol trefi
- % o ganiatâd ar gyfer datblygiad swyddfeydd, adwerthu a hamdden mawr a ganiateir yng nghanol trefi
- Nifer y lleiniau Sipsiwn a Theithwyr sy'n cael caniatâd cynllunio, er bod caniatâd cynllunio diweddar wedi bodloni swm sylweddol o'r angen a nodwyd
- Cyflenwi agregau tywod a graean ledled rhanbarth De-orllewin Cymru
- Cyflenwi safleoedd cyflogaeth strategol
- Cyflenwi safleoedd tai strategol
- Cyflenwi llwybrau cludiant wedi'u diogelu
- Mae'r AMB 5 (2017-2018) diweddaraf yn nodi bod 52% o'r datblygiadau tai a ganiatawyd wedi bod ar safleoedd tai a neilltuwyd a bod y cartrefi a gwblheir bob blwyddyn yn is na tharged y CDLI.

Mae felly materion a newidiadau cyd-destunol clir wedi'u nodi drwy'r AMB i'w hystyried yn yr adolygiad o'r Cynllun Datblygu Lleol. Mae'n ddigon posibl hefyd y bydd newidiadau pellach sydd heb ddod i'r amlwg eto ac ystyrir hyn ble bynnag y bo'n bosibl wrth lunio'r cynllun. Mae adolygiad llawn o'r Cynllun Datblygu Lleol yn ofynnol.

¹ <http://gov.wales/docs/statistics/2017/170323-household-projections-local-authorities-2014-based-en.pdf>

Cynnwys

Crynodeb Gweithredol.....	2
1. Cyflwyniad	7
1.1 Cefndir	7
1.2 Proses Adolygu	7
2. Adroddiadau Monitro Blyneddol - Sbardunau i Ymchwiliad Pellach	10
2.1 Cyflwyniad.....	10
2.2 Canol Trefi	10
2.3 Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr	11
2.4 Cyflenwi Agregau Tywod a Graean	12
2.5 Cyflenwi Safleoedd Cyflogaeth Strategol.....	13
2.6 Cyflenwi Safleoedd Tai Strategol.....	14
2.7 Cyflenwi Llwybrau Cludiant wedi'u Diogelu.....	14
3. Gweledigaeth ac Amcanion.....	15
3.1 Gweledigaeth.....	15
3.2 Amcanion.....	17
4. Strategaeth y CDLI.....	19
4.1 Dosbarthiad Twf.....	19
4.2 Twf Poblogaeth ac Aelwydydd	21
4.3 Tai.....	23
4.4 Tai Fforddiadwy.....	25
4.5 Cyflogaeth.....	26
4.6 Effaith Newid yn yr Hinsawdd.....	26
5. Polisiâu Cyffredinol y Cynllun Datblygu Lleol	30
5.1 Cyflwyniad.....	30

5.2	Polisi GN.1 Polisi Datblygu Cyffredinol	30
5.3	Ynni Adnewyddadwy	30
5.4	Adwerthu	31
5.5	Twristiaeth.....	32
5.6	Mwynau.....	32
5.7	Sipsiwn a Theithwyr	33
5.8	Cyfleusterau Cymunedol	34
5.9	Mannau Agored.....	34
5.10	Lletemau Glas.....	35
5.11	Yr Amgylchedd Hanesyddol.....	35
5.12	Cludiant.....	35
5.13	Gwastraff.....	36
5.14	Map Cynigion	36
6.	Arfarniad o Gynaliadwyedd	37
7.	Cydweithio a Chyd-gynlluniau	38
8.	Casgliad	39
Atodiadau		41
Atodiad 1: Paratoi'r Adroddiad		41
Atodiad 2: Crynodeb o Berfformiad yr Adroddiad Monitro Blynnyddol		43
Atodiad 3: Cyflenwi Dyraniadau'r CDLI		53
Atodiad 4 : Crynodeb o Effeithiolrwydd Polisi		66

Byrfoddau

AAS	Asesiad Amgylcheddol Strategol
AMP	Cyllun Rheoli Ased (Dŵr Cymru / Welsh Water)
AMB	Adroddiad Monitro Blynnyddol
AoG	Arfarniad o Gynaliadwyedd
ARhC	Arfarniad Rheoliadau Cynefinoedd
BGC	Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus
CDLI (2)	Cynllun Datblygu Lleol (2)
CLI	Cynllun Llesiant
CSP	Cyngor Sir Penfro
GTAA	Asesiad Llety Sipsiwn a Theithwyr
JHLAS	Cyd-astudiaeth Argaeledd Tir ar gyfer Tai
LHMA	Asesiad o'r Farchnad Dai Leol
PC Cymru	Polisi Cynllunio Cymru
TAN	Nodyn Cyngor Technegol

1. Cyflwyniad

1.1 Cefndir

- 1.1.1 Mabwysiadwyd Cynllun Datblygu Lleol (CDLI) Sir Benfro ar 28 Chwefror 2013. Mae'n nodi polisiau'r Cyngor ar gyfer datblygu a defnyddio tir yn y Sir (ac eithrio ardal Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro) hyd 2021.
- 1.1.2 Mae Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 yn mynnu bod pob awdurdod cynllunio lleol yn paratoi Cynllun Datblygu Lleol, ac yn ei gadw'n destun adolygiad. Er mwyn sicrhau bod y Cynllun yn parhau'n gyfoes, mae gofyn i'r Cyngor gynnal adolygiad llawn o'r CDLI a fabwysiadwyd o leiaf bob 4 blynedd wedi'r dyddiad mabwysiadu. Bu'n monitro'r CDLI yn flynyddol, ac mae wedi cyhoeddi pum Adroddiad Monitro Blynnyddol (AMB) adeg llunio'r adroddiad hwn. Roedd yr AMB yn asesu'r angen am adolygiad cynnar o'r Cynllun a daeth i'r casgliad fod y Cynllun yn perfformio'n dda ar y cyfan ac nad oes angen adolygiad llawn na rhannol o'r Cynllun, gan gynnwys ar seiliau cynaliadwyedd², cyn y gofyniad adolygu gorfodol.
- 1.1.3 Ar 5 Mai 2017, dechreuodd adolygiad llawn o'r CDLI a fabwysiadwyd ac mae'r Adroddiad Adolygiad hwn yn nodi graddau'r newidiadau sy'n ofynnol i'r CDLI a'r weithdrefn i'w dilyn. Llywiodd y newidiadau a argymhellir i'r CDLI gan yr adroddiadau AMB (gan gynnwys prosesau Asesu Amgylcheddol Strategol, Arfarnu Cynaliadwyedd ac Asesu Rheoliadau Cynefinoedd) ac arolygon a diweddariadau i'r sail dystiolaeth. Mae newidiadau polisi a chyd-destunol eraill hefyd yn ddylanwad allweddol ar yr adolygiad, gan gynnwys newidiadau i bolisi cenedlaethol, deddfwriaeth, a newidiadau cyd-destunol lleol.
- 1.1.4 Amlygir yn yr adroddiad hwn ymhle mae'r Cynllun yn cyflenwi, beth sydd angen ei newid a pham. **Nid yw'n ystyried y newidiadau a allai fod yn briodol i'r cynllun. Bydd y rhain yn cael sylw'n ddiweddarach yn y broses.**

1.2 Proses Adolygu

1.2.1 Mae'r Adroddiad Adolygiad hwn yn ystyried y dystiolaeth am newid ac yn benodol

- Canfyddiadau Adroddiadau Monitro Blynnyddol y CDLI ac unrhyw faterion sy'n codi o fonitro Arfarnu Cynaliadwyedd
- Tystiolaeth arolwg wedi'i diweddaru a aseswyd mewn perthynas â'r tri phrawf cadernid³

² [Adroddiad Monitro AMB 3: 2015-2016](#). Casgliadau ac Argymhellion. Tudalen 62

³ Mae profion Cadernid Cynllun Datblygu Lleol yn pennu a ydy'r cynllun yn 'gadarn', sef ei fod yn bodloni'r tri phrawf cadernid i gyd (Polisi Cynllunio Cymru Argraffiad 9). Mae Canllaw 2 i Gynlluniau

- Newidiadau cyd-destunol perthnasol gan gynnwys polisi cenedlaethol.

1.2.2 Bydd y Cyngor yn parhau i ystyried y dystiolaeth sy'n dod i'r amlwg yn yr adolygiad o'r Cynllun Datblygu Lleol. Mewn rhai achosion, mae newid cyd-destunol neu dystiolaeth a ddiweddarwyd yn cael eu darparu gan asiantaethau a chyrff eraill a bydd angen ystyried dystiolaeth felly wrth i'r Cynllun symud ymlaen tuag at ei fabwysiadu. Bydd Adroddiadau Monitro Blynnyddol AMB hefyd yn asesu goblygiadau'r rhain. Bydd newidiadau a ragwelir yn y dyfodol i'r cyd-destun a'r polisi cenedlaethol yn cael eu hystyried lle bynnag y bo'n bosibl wrth adolygu'r cynllun. Ar hyn o bryd, rhagwelir y bydd y rhain yn gynnwys:

- Polisi Cynllunio Cymru diwygiedig, Argraffiad 10
- Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru
- y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol
- diwygiadau i Lawlyfr Cynllun Datblygu Lleol 2
- a newidiadau posibl sy'n ffurfio rhan o'r Adolygiad o Ddosbarthiadau Defnydd a Datblygu a Ganiateir

1.2.3 Nodir y camau a gymerodd y Cyngor i gynnwys rhanddeiliaid allweddol wrth adolygu'r Cynllun (yn Atodiad 1). Nodir sut mae'r ymgysylltu hwn wedi helpu i lywio'r argymhellion ar gyfer adolygiad yn Atodiad 4: Crynodeb o Effeithiolrwydd Polisi. Mae ymgynghoriad ffurfiol ynghylch yr Adroddiad Adolygu yn cael ei gynnal law yn llaw â'r Strategaeth a Ffeifir a cheir rhagor o fanylion am hyn yn y Cytundeb Cyflenwi drafft sy'n ymgorffori'r Cynllun Cynnwys y Gymuned. Cafodd y Cytundeb Cyfawni ei gymeradwyo gan Lywodraeth Cymru ar 7 Mehefin 2018 ac mae wedi'i gyhoeddi yn unol â Rheoliad 10 o Reoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynllun Datblygu Lleol) (Cymru) (Diwygio) 2015.

1.2.4 Er mwyn iddo gael ei Fabwysiadu gan yr Awdurdod, rhaid i'r Cynllun Datblygu Lleol gael ei ganfod yn un cadarn gan yr Arolygiaeth Gynllunio. Mae'r Profion Cadernid yn helpu i ganfod ymhle mae newid yn ofynnol a sicrhau bod y newidiadau'n briodol. Y profion yw:

- **Prawf 1: A ydy'r Cynllun yn gweddu?** (h.y. a yw'n glir bod y CDLI yn gyson â chynlluniau eraill?)

Datblygu Lleol yn darparu cwestiynau allweddol i helpu i ganfod a ydy'r profion cadernid wedi'u bodloni.

- **Prawf 2: A ydy'r Cynllun yn briodol** (h.y. a ydy'r cynllun yn briodol i'r ardal yng ngoleuni'r dystiolaeth?)
- **Prawf 3: A fydd y cynllun yn cyflenwi** (h.y. a yw'n debygol o fod yn effeithiol?)⁴

1.2.5 Mae gofyn i'r Adroddiad Adolygiad nodi ymhle y dylid newid y Cynllun. Fodd bynnag, nid yw'n awgrymu ffyrdd y dylid newid polisi neu strategaeth. Mae'n anodd cynnal arfarniad o gynaliadwyedd (AoG) heb ystyried y ffordd y gallai'r cynllun gael ei newid. Mae'r Adroddiad Adolygiad hwn felly'n amlygu ymhle y dylid mynd i'r afael â goblygiadau'r arfarniad o gynaliadwyedd, ar sail monitro AoG a CDLI1, ac ymhle mae angen newid yr amcanion cynaliadwyedd yng ngoleuni newid cyd-destunol a'r fframwaith deddfwriaethol, gan gynnwys goblygiadau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru). Yn Adran 3.4.2 o Lawlyfr y CDLI (Argraffiad 2) nodir mai methodoleg yr AoG gwreiddiol sy'n debygol o fod fwyaf priodol. Dyma'r dull a ddefnyddir. Mae'r fframwaith arfarnu cynaliadwyedd yn parhau'n berthnasol ac felly byddai'r amcanion arfarnu cynaliadwyedd yn cael eu gweithredu a'u hadolygu ble'n briodol.

⁴ Ceir manylion pellach y profion yng Nghytundeb Cyflenwi CDLI 2.

2. Adroddiadau Monitro Blynyddol - Sbardunau i Ymchwiliad Pellach

2.1 Cyflwyniad

2.1.1 Mae gofyn i'r Awdurdod baratoi Adroddiadau Monitro Blynyddol y Cynllun Datblygu Lleol i ymdrin â'r cyfnod blaenorol 1 Ebrill i 31 Mawrth. Cafodd yr AMB diweddaraf a gyhoeddwyd ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru ym mis Hydref 2018 (AMB5) ac mae'n ymdrin â'r cyfnod 1 Ebrill 2017 i 31 Mawrth 2018. Mae'r AMB yn asesu a ydy strategaeth, polisïau a safleoedd y CDLI yn cael eu cyflenwi'n unol â gweledigaeth ac amcanion y Cynllun Datblygu Lleol ⁵. Mae gofyn i'r adolygiad hwn ystyried canfyddiadau'r AMB.

2.1.2 Mae AMB5 a gyhoeddwyd yn ddiweddaraf yn parhau i nodi'r meysydd canlynol sy'n peri gofid ⁶. Fe'u hystyrir yn fanylach isod.

- Cyfraddau gwagle safleoedd adwerthu a masnachol yng nghanol trefi
- % o ganiatâd am ddatblygiad swyddfeydd, adwerthu a hamdden mawr yng nghanol trefi
- Nifer y lleiniau Sipsiwn a Theithwyr sy'n cael caniatâd cynllunio, er bod caniatâd cynllunio diweddar wedi bodloni swm sylweddol o'r angen a nodwyd
- Cyflenwi agregau tywod a graean ledled rhanbarth De-orllewin Cymru, gan gynnwys ardal gynllunio Cyngor Sir Penfro
- Cyflenwi safleoedd cyflogaeth strategol
- Cyflenwi safleoedd tai strategol
- Cyflenwi llwybrau cludiant wedi'u diogelu

Yn ogystal, mae AMB5 yn nodi bod 52 o ddatblygiadau tai wedi'u caniatáu ar safleoedd tai dynodedig a bod cartrefi a gwblheir bob blwyddyn yn is na tharged y CDLI.

Bydd adolygiad o'r Cynllun yn ceisio mynd i'r afael â'r materion hyn.

2.1.3 Awgryma'r dangosyddion uchod nad yw'r safleoedd datblygu strategol yn cael eu cyflwyno fel y rhagwelwyd ac nad yw strategaeth y Cynllun Datblygu Lleol yn cael ei chyflenwi yn hyn o beth. Trafodir hyn yn fanylach yn Adran 4 isod.

2.2 Canol Trefi

2.2.1 Mae cyfraddau gwagle safleoedd masnachol ac adwerthu yng nghanol trefi'r Awdurdod (Hwlfordd, Aberdaugleddau, Penfro, Doc Penfro, Arberth ac Abergwaun) yn ddangosydd sy'n adlewyrchu iechyd cyffredinol canol y trefi

⁵ Pennod 4 'Gweledigaeth ac Amcanion' y Cynllun Datblygu Lleol

⁶ Cyfeiriwch at AMB 3 2015-2016 ac AMB 4 2016-2017 i gael gwybod am feysydd polisi ychwanegol a fodlonodd y sbardun am ymchwiliad pellach.

hyn. Nodwyd yn nifer o'r AMB fod cyfraddau gwagle yn bryder ar gyfer llawer o'r canol trefi lle mae gwagle siopau'n 5% neu ragor yn uwch na'r gwagle cyfartalog cenedlaethol. Dyma'r achos ar hyn o bryd yn Noc Penfro, Aberdaugleddau, Abergwaun ac yn Hwlfordd er bod cynllun ailddatblygu ar y gweill ar hyn o bryd. Mae'r sefyllfa'n gyffredinol yn adlewyrchu amodau economaidd sy'n effeithio ar ganolfannau adwerthu a masnachol, ond gallai adolygu'r dull polisi cyffredinol a strategol adwerthu gan ystyried newidiadau polisi cyd-destunol i Bolisi Cynllunio Cenedlaethol Cymru (Argraffiad 9) a Chanllaw Technegol 4 ar Ganolfannau Adwerthu a Masnachol (Tachwedd 2016) helpu i fynd i'r afael â'r pryder hwn.

2.2.2 Mae'r ganran o ganiatâd ar gyfer datblygiadau swyddfa, adwerthu a hamdden mawr a ganiatawyd mewn canol trefi (wedi'i mynegi'n % o'r holl ddatblygiad mawr a ganiatawyd) wedi'i sbarduno'n gyson yn yr adroddiadau AMB. Mae Polisi Cynllunio Cenedlaethol yn mynnu bod datblygiad adwerthu a masnachol y tu allan i'r canol yn bodloni profion angen, y dull dilyniantol ac effaith. Ym mhob achos, mae'r datblygiad wedi bodloni'r profion hyn ac roedd yn dderbyniol. Fodd bynnag, bydd yn briodol adolygu dyraniadau ar gyfer datblygiad adwerthu, a pholisi'r CDLI i sicrhau cydymffurfio â Pholisi Cynllunio Cenedlaethol (Polisi Cynllunio Cymru Pennod 10 a TAN4 'Canolfannau Adwerthu a Masnachol').

2.2.3 Bydd yr adolygiad hefyd yn ystyried yr Astudiaeth o Allu Adwerthu Rhanbarthol (2017) sydd (i) yn rhoi tystiolaeth o'r angen am ddatblygiad adwerthu cyfleustra, cymhariaeth a nwyddau swmpus drwy gydol oes CDLI2; (ii) yn rhoi asesiadau iechyd o ganol trefi a hefyd; (iii) yn ailystyried dyraniadau adwerthu'r CDLI.

2.3 Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr

2.3.1 Cynhaliwyd Asesiad o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr yn 2010, a hysbysodd y gofyniad yn y Cynllun Datblygu Lleol, ac roedd yn nodi bod angen 40 o leiniau ychwanegol. Ni fodlonwyd yr angen hwn erbyn 2015. Mae asesu anghenion llety Sipsiwn a Theithwyr, a'r ddyletswydd i ddarparu safleoedd lle mae'r asesiad yn nodi bod eu hangen, yn ofynion statudol ers Deddf Tai (Cymru) 2014. Mae'r Cyngor wedi llunio Asesiad o Llety Sipsiwn a Theithwyr wedi'i ddiweddarau (GTAA 2015) sydd wedi canfod bod llai o angen lleiniau - 32 o leiniau preswyl, a dwy iard pobl sioe deithiol yn ofynnol am y 5 mlynedd nesaf - sef llai o angen nag a nodwyd yn flaenorol. Mae hyn yn codi i ragamcan o 37 o leiniau preswyl, a hefyd y ddwy iard pobl sioe deithiol hyd at 2021. Bydd angen 101 o leiniau a dwy iard erbyn 2031.

2.3.2 Mae'r angen presennol wedi'i grwpio'n dri lleoliad sy'n adlewyrchu'r lleoliadau cyffredinol y mynegodd preswylwyr ddymuniad i fyw ynddynt. Y rhain yw Hwlfordd, Cilgeti a Phenfro / Doc Penfro. Fodd bynnag, mae mwyafrif y

cynnydd o GTAA 2015 yn seiliedig ar dwf aelwydydd yn unig ac mae anawsterau cynhenid wrth ddefnyddio canlyniadau'r un arolwg hwn i ddarogan twf mor bell o flaen llaw. Bydd y gofyniad i gynnal GTAA newydd o leiaf bob pum mlynedd yn arwain at asesiadau mwy dibynadwy o angen yn ystod cyfnod y cynllun.

- 2.3.3 Yn ogystal, efallai bod darpariaeth annigonol o leiniau a/neu fannau aros dros dro yn y Sir, er bu lefel yr angen yn anodd ei mesur.
- 2.3.4 Ers arolwg GTAA ym mis Tachwedd 2018, mae cyfanswm o 30 o leiniau ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr wedi cael caniatâd cynllunio ar safleoedd preifat a chyhoeddus. Mae caniatâd cynllunio hefyd wedi'i roi ar gyfer iard Pobl Sioe Teithiol. Ystyrir bod polisiau'r Cynllun Datblygu Lleol yn gweithio'n dda.
- 2.3.5 Mae dyraniad am 15 llain ar Dir Comin Kingsmoor gynt yng Nghilgeti wedi cael caniatâd cynllunio ar gyfer 12 llain ac mae Llywodraeth Cymru wedi cymeradwyo arian grant i gyflwyno'r safle hwn.
- 2.3.6 Cyhoeddwyd Cylchlythyr Llywodraeth Cymru 'Cynllunio ar gyfer Safleoedd Sipsiwn, Teithwyr a Phobl Sioe' ym mis Mehefin 2018 ac mae'n diweddarau'r cyd-destun polisi. Mae'r canllawiau yn darparu cyd-destun newydd ar gyfer ystyried ceisiadau cynllunio ar gyfer safleoedd Sipsiwn, Teithwyr a Phobl Sioe a bydd angen diwygio'r dull polisi presennol ar gyfery Cynllun Datblygu Lleol.

2.4 Cyflenwi Agregau Tywod a Graean

- 2.4.1 Mae cronfa fwynau'r CDLI ar gyfer tywod a graean yn seiliedig ar asesiad Sir Benfro gyfan. Cyflwynwyd dull newydd o ddosrannu tywod a graean ar y tir ar gyfer de-orllewin Cymru yn ystod AMB2. Mae'n ystyried yr agwedd hon ar y banc tir mwynol ledled rhanbarth ehangach sy'n cwmpasu Sir Benfro, Ceredigion a Sir Gaerfyrddin, er mwyn annog cydweithrediad rhwng yr awdurdodau hyn wrth ddod o hyd i ateb mwy hirdymor i'r dyhead am leihau cynhyrchu yn fewn y Parc Cenedlaethol yn y dyfodol (Nid oes gofyn i'r Awdurdod Parc Cenedlaethol gadw banciau tir mwynau). Bydd angen felly cydweithio i fynd i'r afael â dosrannu yn ystod yr adolygiad o'r CDLI. Sefydlwyd Grŵp Cynllunio Mwynau De-orllewin Cymru i ystyried dosrannu ac, os oes modd, canfod safleoedd cynhyrchu tywod a graean daearol newydd ar y cyd â gweithredwyr mwynau. Bydd dull newydd o drin safleoedd segur yn ofynnol hefyd.

2.5 Cyflenwi Safleoedd Cyflogaeth Strategol

2.5.1 Nodir safleoedd cyflogaeth strategol yn y Cynllun Datblygu Lleol i weithredu amcanion y Cynllun i gynnal a gwella'r economi wledig, ac adeiladu ar leoliad strategol y Sir ar gyfer datblygiad cysylltiedig ag ynni a phorthladd. Dyrannwyd 97.55 hectar at safleoedd cyflogaeth strategol a 75 hectar o dir at ddefnydd cyflogaeth leol. Mae'r dull hwn yn mynd i'r afael yn benodol â'r angen am amrywiaeth a dewis o safleoedd i fodloni gofynion y sector. Fe'u dyrannir i gefnogi gweithgareddau'r dyfodol mewn perthynas ag ynni a phorthladd yn agos i Ddyfrffordd y Ddau Gledau, i gefnogi cyflogaeth yn Nhref Sirol Hwlfordd ac i alluogi ailddatblygiad yn hen Ddepo Arfau'r Llynges Frenhinol yn Nhrecŵn, yr ystyrir ei fod yn safle cyfle, gyda photensial i gysylltu â gweithgareddau yn Abergwaun ac Wdig ac â'r rhwydwaith rheilffyrdd. Cyhoeddwyd yr arolwg cyflogaeth ar gyfer 2017 ar wefan CSP a bydd arolwg cyflogaeth yn dechrau yn ystod 2018.

2.5.2 Mae'r CDLI yn dyrannu 4 safle cyflogaeth strategol ym Mholisi SP3 o'r CDLI.

Blackbridge – ymgeisiodd Egnedol am brosiect ynni biomas sy'n cynnwys y dyraniad a hefyd ardaloedd sylweddol o dir ychwanegol y tu hwnt i hwn. Fodd bynnag, cafodd y caniatâd cynllunio hwn ar gyfer 'datblygiad o arwyddocâd cenedlaethol' (DNS) ei wrthod gan Weinidogion Cymru yn 2018.

Parc Gwyddoniaeth a Thechnoleg Sir Benfro - mae'r safle hwn yn cynnwys Canolfan Arloesol y Bont (y Techniw m gynt) a hefyd adeilad diwydiannol newydd (yn rhan Dde-ddwyrain y safle) a gwblhawyd yn 2015/2016.

Mae **Parc Busnes Llwynhelyg** wedi denu ychydig o gynigion cymharol fach gan gynnwys uned fasnachol dosbarth B8 a man addoli. Mae caniatâd ychwanegol yn berthnasol i ddefnydd storio a chanolfan ffitrwydd. Mae cynnig 'Parc Bwyd Sir Benfro' yn Llwynhelyg ac yn yr Ardal Fenter, sy'n cwmpasu'r dyraniadau cyflogaeth a chyflogaeth strategol, wedi caffael cyllid am unedau hybu a rhagwelir ceisiadau cynllunio ar gyfer 2018. Mae gan y cynnig botensial cyflogaeth sylweddol a dylai'r adolygiad o'r cynllun ystyried y cynigion.

Yn Nhrecŵn, ni chyflwynwyd eto'r weithfa frigo sy'n cael ei thanio â diesel (2012) a ganiatawyd yn nyraniad cyflogaeth strategol y CDLI. Caniatawyd gorsaf bŵer biomas yn un rhan o Gwm Trecŵn y tu allan i'r ardal a ddyrannwyd.

2.5.3 Ar y cyfan, prin fu'r diddordeb yn Sir Benfro yng nghysyniad parciau busnes o ansawdd uchel. Mae adolygiad o safleoedd cyflogaeth strategol yn ofynnol felly. Bydd yr adolygiad yn ystyried dynodiad diweddar Ardal Fenter Dyfrffordd y Ddau Gledau, y diffiniad gofodol o'r Ardal Fenter a'i goblygiadau ar gyfer Strategaeth Gyflogaeth. Bydd yr Astudiaeth Cyflogaeth Ranbarthol hefyd yn dylanwadu ar strategaeth y dyfodol ar gyfer safleoedd cyflogaeth. Bydd yr astudiaeth hon yn cyfeirio at Fargen Ddinesig Bae Abertawe, ac mae agweddau ar y rhain yn ymwneud â safleoedd yn Sir Benfro.

2.6 Cyflenwi Safleoedd Tai Strategol

- 2.6.1 Dyrannir tri safle tai strategol yn y CDLI yng ngogledd a de Slade Lane, Shoals Hook Lane, Hwlfordd a Maesgwynne, Abergwaun. Mae'r safleoedd wedi cael llwyddiant amrywiol yn denu ceisiadau cynllunio, ac nid yw Shoals Hook Lane wedi denu cais eto. Mae gallu'r farchnad i adeiladu safleoedd mawr wedi dylanwadu ar hyn. Bydd angen ystyried gallu'r safleoedd hyn i gyflenwi yn ystod yr adolygiad. Bydd angen hefyd i ddatblygiadau tai strategol adlewyrchu unrhyw newidiadau i strategaeth y CDLI a benderfynir yn ystod yr adolygiad.

2.7 Cyflenwi Llwybrau Cludiant wedi'u Diogelu

- 2.7.1 Mae CDLlau yn diogelu cynigion seilwaith cludiant wedi'u rhaglennu a'u cyllido sy'n debygol o gael eu cyflenwi yn ystod cyfnod y Cynllun. Fodd bynnag, mae eu cyflenwi y tu hwnt i gylch gwaith y CDLI, er bod yr AMB yn darparu gwybodaeth am gynnydd tuag at eu gweithredu. Ers paratoi'r CDLI, cyflenwyd rhai o'r cynlluniau wedi'u diogelu, ond mewn llawer o achosion mae trefniadau rhaglennu a chyllido ar gyfer cynlluniau heb eu gweithredu wedi newid yn sylweddol ers mabwysiadu'r CDLI yn 2013. Mae angen felly ystyried y gallu parhaus i gyflenwi'r cynlluniau sydd heb eu gweithredu a nodir yn y CDLI, i weld a oes gofyn diogelu unrhyw gynlluniau newydd ac i ddiweddarau a gwaredu cynlluniau a gyflenwyd. Mae rhagor o wybodaeth yn Atodiad 3 am statws cyfredol cynlluniau presennol wedi'u diogelu a chynlluniau newydd y gellid eu hystyried i'w diogelu.
- 2.7.2 Mae'r adran hon o'r Adroddiad Adolygiad yn ystyried canfyddiadau'r AMB a'u heffaith ar yr adolygiad o'r CDLI. Mae newidiadau cyd-destunol a newidiadau eraill a fydd yn dylanwadu ar CDLI2 ar gael yn Adrannau 4 a 5.

3. Gweledigaeth ac Amcanion

3.1 Gweledigaeth

- 3.1.1 Mae'r CDLI yn darparu gweledigaeth o sut ddylai'r Sir fod ar ddiwedd Cyfnod y Cynllun (2021). Mae gweledigaeth gyffredinol y CDLI yn disgrifio elfennau defnydd tir y Weledigaeth i Sir Benfro fel y'u nodwyd yng Nghynllun Gofodol Cymru (Pobl, Lleoedd, Dyfodol: Diweddariad 2008 o Gynllun Gofodol Cymru) a Chynllun Cymuned Sir Benfro (Diweddariad 2009)⁷ a oedd yn bodoli ar y pryd. Yn ôl y Weledigaeth:

Gweledigaeth y CDLI:

“Sicrhau bod Sir Benfro yn ffynnu ac yn parhau yn rhywle bywiog ac arbennig drwy greu: rhwydwaith o gymunedau trefol a gwledig cryf mewn Trefi Ffocws, Canolfannau Gwasanaethol, Pentrefi Gwasanaethol a Phentrefi Lleol sy'n cael eu cefnogi gan economi amrywiol, gynaliadwy a chadarn sy'n ychwanegu gwerth uchel, ac a gynhelir gan amgylchedd unigryw'r Ardal, y mynediad i'r môr yn Nyfrffordd Aberdaugleddau a Harbwr Abergwaun a chyfleoedd ym maes ynni a thwristiaeth sy'n bwysig yn rhyngwladol.”

- 3.1.2 Mae seiminarau wedi'u cynnal gydag Aelodau'r Awdurdod a Rhanddeiliaid Allweddol ar y Weledigaeth ddrafft, Amcanion a Materion ar gyfer CDLI2 yn ogystal ag ymgynghoriad cyhoeddus ehangach. Mae Gweledigaeth, Amcanion a Materion diwygiedig wedi'u cynnwys yn y Strategaeth a Ffeifrir ddrafft, a gyhoeddwyd ar gyfer ymgynghoriad ynghyd â'r Adroddiad Adolygu hwn.

Y Cynllun Llesiant

- 3.1.3 Er mwyn hysbysu'r Cynllun Llesiant, mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn ei gwneud yn ofynnol i Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus asesu'n gyntaf gyflwr llesiant yn eu hardaloedd a'u cymunedau. Mae'n ofynnol i gyrff cyhoeddus yn ardal pob awdurdod lleol weithio gyda'i gilydd i wella lles economaidd, amgylcheddol, cymdeithasol a diwylliannol ei ardal a'r cymunedau sydd ynddi. Cyhoeddwyd yr Asesiad Llesiant ar gyfer Sir Benfro ym mis Ebrill 2017⁸. Canfu'r casgliadau cyffredinol fod 'llesiant' i bobl Sir Benfro yn golygu iechyd da, digon o arian am hanfodion; a pherthnasoedd da. O ran tueddiadau'r dyfodol i Sir Benfro, mae'r Asesiad Llesiant yn nodi:-

(a) Poblogaeth sy'n heneiddio ac sy'n byw'n hirach

⁷ Paratowyd Cynllun Cymuned Sir Benfro (2010-2025) ar ran y Bwrdd Gwasanaethau Lleol, a bydd wedyn yn disodli'r Cynllun Integredig Sengl (2013-2018) yn dilyn cyfarwyddyd Llywodraeth Cymru yn 2012. Yn ei dro, caiff y CIS ei ddisodli gan Gynllun Llesiant fel sy'n ofynnol gan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, a'i gynhyrchu gan y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.

⁸ <https://www.pembrokeshire.gov.uk/content.asp?nav=101,2434,2438>

- (b) Newid hinsawdd sy'n debygol o achosi hinsawdd gynhesach a gwlypach i Sir Benfro
- (c) Mae economi Sir Benfro'n gymharol wan ac mae'n ddaearyddol anghysbell o ranbarthau dinesig mawr lle mae twf economaidd ar ei gyflymaf ar hyn o bryd.
- (d) Mae tueddiadau gwasanaethau cyhoeddus yn cyfeirio at ostyngiad parhaus yn yr adnoddau sydd ar gael mewn termau real a bydd maint yr adnoddau sy'n ofynnol am wasanaethau ieuchyd a gofal cymdeithasol yn parhau i gynyddu mewn termau real.

3.1.4 Cyhoeddwyd Cynllun Llesiant Sir Benfro ym mis Mai 2018 gan Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC) Sir Benfro, ac ae'n nodi'r egwyddorion arweiniol a luniodd y cynllun. Dyma nhw:

- Gwrando
- Deall
- Newid
- Datblygu cynaliadwy
- Arwain drwy esiamp
- Cynlluniau a strategaethau eraill pwysig
- Y Gymraeg

3.1.5 Nododd y gwaith ar yr Asesiad Llesiant faterion allweddol a oed yn dod i'r amlwg gan alluogi i ddau amcan Llesiant eang gael eu nodi yn y Cynllun Llesiant.

Amcan		Blaenoriaethau
Pwy Ydym Ni	Rydym am helpu ein pobl, ein cymunedau a'n sefydliadau fel y gallwn gefnogi ein hunain a'n gilydd.	Blaenoriaeth 1: Byw a Gweithio Blaenoriaeth 2: Cymunedau Mentrus
Lle'r Ydym yn Byw	Rydym am ddiogelu a gwella ein hasedau naturiol tra'n gwneud y gorau o ragolygon economaidd, hygyrchedd ac ieuchyd i bawb.	Blaenoriaeth 3: Mynd i'r afael â Gwledigrwydd Blaenoriaeth 4: Diogelu ein Hamgylchedd

Nid oes gweledigaeth ar gyfer y Cynllun Llesiant, ond mae'n nodi wyth prosiect trawsbynciol ar gyfer y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus

1. Fframwaith Trawsnewid Recriwtio a Chyflogaeth
2. Asesiad o Risgiau Amgylcheddol a Newid Hinsawdd
3. Dod yn Garbon Niwtral
4. Gwneud pethau'n Wahanol
5. Dathlu'r Awyr Agored

6. Cyfranogiad Cymunedol
7. Deall Ein Cymunedau
8. Ymgysylltu'n Ystyrlon â'r Gymuned

Bydd y BGC yn cynhyrchu adroddiad blynyddol ar sut mae wedi gweithio i gyflawni'r amcanion. Bydd adolygiad o'r Cynllun Datblygu Lleol yn ystyried amcanion a blaenoriaethau'r Cynllun Llesiant ac adroddiadau blynyddol.

3.1.6 Dylai'r Weledigaeth ar gyfer CDLI2 barhau i gyd-fynd â Gweledigaeth Cynllun Gofodol Cymru⁹ (diweddariad 2018), hyd nes y caiff ei disodli gan y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol, a byddai'n elwa o fod yn gydnaws ag amcanion y cynllun llesiant.

3.1.7 I sicrhau cysondeb, aseswyd gweledigaeth y CDLI 1 mewn perthynas â'r 7 nod llesiant, sef:

- Cymru ffyniannus
- Cymru gydnerth
- Cymru iachach
- Cymru fwy cyfartal
- Cymru o gymunedau cydlynol
- Cymru o ddiwylliant bywiog ac iaith Gymraeg ffyniannus
- Cymru sy'n fyd-eang gyfrifol

3.1.8 Mae gweledigaeth CDLI 1 yn cyd-redeg yn gyffredinol â'r nodau llesiant mewn llawer ystyr, ond mae'n hŷn nag ymddeddfiad Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ac mae gofyn ei diwygio er mwyn iddi fynd i'r afael â'r nodau'n llawn, yn enwedig mewn perthynas â nodau amgylcheddol, cymdeithasol a diwylliannol.

3.2 Amcanion

3.2.1 Nodir mai'r egwyddor allweddol i gyflenwi'r Cynllun yw datblygu cynaliadwy; mae'r amcanion a'r is-amcanion sy'n sail i'r egwyddor allweddol hon a'r Weledigaeth wedi'u nodi yn y Cynllun. Mae'r CDLI yn cynnwys 10 amcan a 23 o is-amcanion ar draws ffactorau economaidd, amgylcheddol, cymdeithasol a diwylliannol.

⁹ Gweledigaeth Cynllun Gofodol Cymru: "Byddwn yn cynnal ein cymunedau drwy fynd i'r afael â'r heriau a gyflwynir gan newid economaidd a phoblogaeth. Byddwn yn tyfu mewn ffyrdd a fydd yn gwneud Cymru'n fwy cystadleuol ac wrth gynorthwyo ardaloedd llai cyfoethog i ddal i fyny â lefelau ffyniant cyffredinol a lleihau effeithiau amgylcheddol negyddol. Byddwn yn gwella'r amgylchedd naturiol ac adeiledig a byddwn yn cynnal ein hunaniaeth arbennig".

- 3.2.2 Bydd gofyn ychydig o ddiwygio, fodd bynnag, i sicrhau bod amcanion ac is-amcanion y CDLI yn cyfrannu at amcanion strategol y CIS, y Cynllun Llesiant pan fydd ar waith a'r nodau llesiant.
- 3.2.3 Bydd newidiadau arfaethedig i Weledigaeth ac Amcanion drafft y CDLI yn dilyn Seminarau Aelodau a Rhanddeiliaid Allweddol a'r ymgynghoriad cyhoeddus yn cael eu cynnwys yn y Strategaeth a Ffefrir.

4. Strategaeth y CDLI

4.1 Dosbarthiad Twf

4.1.1 Mae strategaeth y CDLI yn canolbwyntio ar alluogi datblygiad yn unol ag amcanion ac is-amcanion y CDLI. Mae'n cynnwys strategaeth anheddu sy'n anelu at sicrhau dosbarthiad cytbwys o ddatblygiad newydd rhwng Sir Benfro drefol a gwledig, a mynd i'r afael â'r anghydbwysedd ym mhroffil oedran y boblogaeth, er enghraifft drwy gynorthwyo pobl ifanc i sefydlu aelwydydd newydd mewn pentrefi gwledig. Yn yr ardaloedd gwledig, mae'r twf yn canolbwyntio ar yr aneddiadau hynny â lefel dda o wasanaethau. Adeg mabwysiadu, rhagwelwyd y byddai 60% o dai yn cael eu hadeiladu mewn ardaloedd trefol a 40% mewn ardaloedd gwledig, gyda thwf mewn ardaloedd gwledig yn canolbwyntio ar yr aneddiadau hynny â lefel dda o wasanaethau. Sefydlwyd yr hierarchaeth anheddu ar sail lefel y gwasanaethau a'r cyfleusterau cymunedol sy'n cefnogi anheddiad, gan ragweld twf mewn aneddiadau gyda chyfleusterau presennol. Cynhaliwyd adolygiad o gyfleuserau aneddiadau gwledig yn 2017 yn 2017, ac mae wedi'i gyhoeddi yn y papur diweddar ar Gyfleusterau Gwledig 2017. Mae ymgysylltu ag Aelodau'r Awdurdod a Rhanddeiliaid, gan gynnwys CynghorauTref a Chymuned, wedi helpu i fireinio gwybodaeth am wasanaethau a phwysoliad sy'n gysylltiedig â gwasanaethau a nodwyd.


Hierarchaeth Anheddu'r CDLI -

1. Trefi ffocws
2. Aneddiadau Gwledig
 - 2a Trefi Gwledig
 - 2b Canolfannau Gwasanaethol
 - 2c Pentrefi Gwasanaethol
 - 2d Pentrefi Lleol Mawr
 - 2e Pentrefi Lleol Bach

4.1.2 Bydd diwygiadau i'r hierarchaeth anheddau ac i seyllfa'r anheddau o'i mewn, yn cael eu hystyried wrth adolygu'r cynllun

4.1.3 Yn ystod AMB3 (1 Ebrill 2015 - 31 Mawrth 2016), yn sgil caniatâd am dai, cafodd 922 o gartrefi ganiatâd cynllunio. O'r rhain, roedd 39% mewn Trefi Ffocws, 5% yn Arberth (Tref Wledig), 50% mewn aneddiadau gwledig eraill a 7% mewn ardaloedd cefn gwlad. Er bod hyn yn dangos lleihad yn y ffocws trefol o'i gymharu â blynyddoedd blaenorol, roedd y Cynllun yn cydymffurfio o hyd â'r targed monitro, gyda chaniatâd mewn trefi ffocws yn 63.5% dros gyfnod o 3 blynedd, ac mae'n nodi cyflenwi yn unol â strategaeth y Cynllun. O fewn AMB4 (1 Ebrill 2016 - 31 Mawrth 2017), mae'r duedd hon yn parhau gyda 37% o'r holl ganiatâd preswyl wedi'i roi mewn Trefi Ffocws (50% yw'r targed). Yn ystod AMB5, bu ffocws o'r newydd ar y Trefi Ffocws gyda 52% o'r tai wedi cael caniatâd yn y Trefi Ffocws, 18% yn Nhref Wledig Arberth, 28.5% mewn aneddiadau gwledig eraill, a 4.5% yng nghefn gwlad. O'i ystyried mewn

perthynas â'r 'sbardun 3 blynedd' o 50%, mae'r caniatâd i drefi ffocws ar y trywydd cywir. Mewn mannau eraill, roedd y canrannau yn unol â strategaeth y CDLI. Mae ceisiadau yng Nghefn Gwlad wedi lleihau i 4.5% o'r 7% blaenorol ac yn cynnwys ceisiadau am addasiadau a safleoedd eithriedig gwledig.



Graff 1: Anheddau a adeiladwyd yn ystod cyfnod y Cynllun

- 4.1.4 Mae gofyn i'r Awdurdod sicrhau bod digon o dir ar gael i ddarparu cyflenwad 5 mlynedd o dir ar gyfer tai (PC Cymru 9.2.3). Bu'r cyflenwad tai yn ddigonol i sicrhau cyflenwad o 5 mlynedd a rhagor ar y cyfan yn ystod y CDLI, a nodwyd gan JHLAS¹⁰ Cyngor Sir Penfro, ac mae wedi bodloni strategaeth y CDLI. Mae JHLAS 2017 yn nodi cyflenwad tai o 5.1 mlynedd. Fodd bynnag, mae arwyddion cynnar bod y farchnad yn arafu o ran caniatâd a roir ac unedau a adeiladir. Nid yw hyn wedi trosi'n ddiffyg cyflenwad tir ar gyfer tai hyd yma.
- 4.1.5 Nid yw safleoedd tai strategol sydd mewn Trefi Ffocws (Gogledd a De Slade Lane a Shoals Hook Lane, Hwlfordd a Maesgwynne, Abergwaun) wedi'u cyflenwi er bod caniatâd cynllunio gan safleoedd Slade Lane a Maesgwynne. Er bod dyraniadau mewn aneddiadau gwledig yn cael eu datblygu o hyd, mae angen adolygu'r holl ddyraniadau tai heb eu datblygu, gan gynnwys safleoedd tai strategol, i sicrhau eu bod wir ar gael ar gyfer datblygiad ac yn rhydd o gyfyngiadau cynllunio, ffisegol a pherchenogaeth, ac yn economaidd ddichonadwy i'w datblygu. Dylai safleoedd tai a gyflenwyd gael eu tynnu allan o'r cynllun datblygu a dylai safleoedd newydd gael eu cynnwys. Mae galwad ffurfiol am safleoedd ymgeisiol wedi'i wneud yn rhan o'r broses hon. Mae tua 450 o safleoedd ymgeisiol wedi'u cyflwyno a bydd y rhain yn cael eu hystyried yng nghyd-destun strategaeth CDLI2.

¹⁰ Cyfrifwyd cyflenwad ar sail y dull gweddilliol a nodwyd yn TAN1 'Cyd-astudiaethau Argaeledd Tir ar gyfer Tai' Ionawr 2015

- 4.1.6 Mae'n werth nodi bod cyfyngiadau o hyd ar gyflenwi rhai safleoedd y mae diffyg gallu yn y system garthffosiaeth yn effeithio arnynt. Yn ôl Cynllun Rheoli Ased B6 (sef Cyfnod Rheoli Ased 6 - 2015-2020), mae rhaglen buddsoddi cyfalaf Dŵr Cymru / Welsh Water yn allweddol i ddatgloi safleoedd cyfyngedig mewn llawer o achosion, ac mae Dŵr Cymru wedi darparu rhagor o wybodaeth am hyn. Mae'r sefydliad hwn hefyd wedi dechrau gwaith ar AMB 7, a fydd yn cwmpasu'r cyfnod o 2020 i 2025.
- 4.1.7 Gallai'r potensial am newid cyd-destunol godi o ddiwygiadau i Nodyn Cyngor Technegol 20 'Cynllun a'r Iaith Gymraeg' a gyhoeddwyd ym mis Hyfred 2017. Gallai hyn ddylanwadu ar benderfyniadau am opsiynau datblygu strategol ¹¹ gan gynnwys datblygu economaidd, effeithiau cronus datblygiad ar yr iaith Gymraeg ar draws ardal y cynllun, a datblygu fesul cyfnod mewn ardaloedd a nodwyd sy'n sensitif o ran iaith. Mae papur cefndir ar yr iaith Gymraeg wedi ei baratoi.
- 4.1.8 Er bod y CDLI wedi cyflenwi lefel dderbyniol o ddatblygiad tai (gan gynnwys tai fforddiadwy - Adran 4.4) yn unol â strategaeth y CDLI, dylid ailasesu lefel a dosbarthiad tai mewn anheddiadau ac yng nghefn gwlad i sicrhau ei fod yn parhau'r ffordd ymlaen fwyaf priodol yng ngoleuni newidiadau posibl i gyd-destun, gweledigaeth ac amcanion o dan adolygiad y CDLI.

4.2 Twf Poblogaeth ac Aelwydydd

- 4.2.1 Roedd y Cynllun Datblygu Lleol yn nodi'r tueddiadau allweddol canlynol i'r boblogaeth ar sail Cyfrifiad 2001.

'Mae gan y Sir boblogaeth sy'n heneiddio, gydag 19.2% dros 65 oed (Sir gyfan) o gymharu ag 17.4% yng Nghymru. Ceir allfudiad net uchel o bobl iau (16-24 oed), a gaiff ei gydbwyso â lefel uchel o fewnlifiad o bobl dros 45 oed. Rhagwelir y bydd poblogaeth Sir Benfro yn tyfu yn ystod cyfnod y Cynllun. Mae amcanestyniadau Llywodraeth Cymru o boblogaeth Sir Benfro ac eithrio'r Parc Cenedlaethol yn awgrymu y bydd y boblogaeth yn tyfu o oddeutu 97,147 yn 2011 i 102,626 yn 2021 - cynnydd o 5,479.¹²

- 4.2.2 Fodd bynnag, dangosodd Cyfrifiad 2011 mai 99,756 oedd poblogaeth Sir Benfro ac eithrio'r Parc Cenedlaethol. Roedd hyn fymryn yn uwch nag yr amcangyfrifwyd yn flaenorol. Mae amcangyfrifon poblogaeth canol blwyddyn ONS (a gyhoeddwyd yn 2016) yn nodi bod gan Sir Benfro (ac eithrio'r Parc Cenedlaethol) yn 2015 boblogaeth breswyl o 100,802 a chyda'r Parc Cenedlaethol boblogaeth o 123,464¹³. Bu twf poblogaeth yn Sir Benfro, ac eithrio'r Parc Cenedlaethol, yn llai nag a ragamcanwyd, ac yn 2015 mae wedi bod yn llai na'r rhagamcaniadau, a hynny tua 2,698 o bobl yn llai.

¹¹ Para 2.4.2 Nodyn Cyngor Technegol 20: 'Cynllunio a'r Iaith Gymraeg'.

¹² CDLI CSP [Scale and Location of Growth Background Paper, 2008](#)

¹³ <https://statswales.gov.wales/Catalogue/Population-and-Migration/Population/Estimates>

4.2.3 Rhwng 2011 a 2016 roedd yr ymfudiad net ar gyfartaledd tua 390 y flwyddyn o'r tu mewn i'r DU a rhyw 80 y flwyddyn o'r tu allan i'r DU rhwng 2012 a 2016¹⁴. Mae poblogaeth sy'n heneiddio yn Sir Benfro a hynny'n rhannol oherwydd ymfudo ac am fod pobl yn byw'n hirach. Gallai hyn effeithio ar y galw am dai i bobl hŷn.

4.2.4 Mae rhagamcaniadau poblogaeth awdurdod lleol Llywodraeth Cymru ar gyfer Cymru¹⁶ (ar sail 2014) yn amcangyfrif y bydd gan Sir Benfro, erbyn 2039, boblogaeth o 122,200 ar sail tybiaethau am enedigaethau, marwolaethau ac ymfudo ac yn seiliedig ar dueddiadau yn y blynyddoedd diwethaf. Mae hyn yn ostyngiad o 1,500 o bobl (1.2%) gyda gostyngiadau ym mhob grŵp oedran heblaw'r rheini sy'n 75 oed a hŷn. Bydd mwyafrif y gostyngiad hwn yn digwydd ar ôl diwedd cyfnod cynllun CDLI2. Yn ystod CDLI2 (a ddaw i ben 31 Rhagfyr 2033) rhagwelir y bydd y boblogaeth yn tyfu tan 2029, i ryw 124,400 (+700) gan ostwng tua 100 o bobl yn unig i 123,600 yn 2034. Rhagwelir felly y bydd poblogaeth Sir Benfro yn cynyddu wedyn yn gostwng ond yn gorffen yn is yn 2039 nag yn 2014.

4.2.5 Mae Rhagamcaniadau Aelwydydd Awdurdod Lleol (ar sail 2014)¹⁷ a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru yn amcangyfrif bod nifer yr aelwydydd yn Sir Benfro wedi'i ragamcanu i gynyddu 4% rhwng 2014 a 2039 gan godi o amcangyfrif o 54,200 o aelwydydd i 56,400, ar ôl gostwng o 56,700 o aelwydydd yn 2029-2034. Rhagamcanir y bydd maint yr aelwyd gyfartalog yn gostwng o 2.24 (2014) i 2.13 (2034) a 2.11(2039).

“Rhwng 2014 a 2039 rhagamcanir y bydd poblogaeth ~~Powys~~ Sir Benfro yn lleihau oddeutu 1,400 (neu 1.2 y cant). Hwn yw'r pumed gostyngiad mwyaf a ragamcanir yng Nghymru. Rhagamcanir y bydd pob grŵp oedran yn gostwng ar wahân i'r rheini sy'n 75 oed neu hŷn (a ragamcanir i gynyddu 24,200). Bydd ymfudo net yn cyfrif am gynydd o 6,300 yn y boblogaeth rhwng 2014 a 2039 (wedi'i sbarduno gan ymfudo mewnol); fodd bynnag, caiff hwn ei wrthbwyso a rhagor gan ostyngiad yn y boblogaeth oherwydd newid naturiol o 7,700”.¹⁸

4.2.6 Mae'n amlwg y dylai lefel twf aelwydydd a phoblogaeth gael ei hailystyried yn yr adolygiad. Mae'r Papur Rhagolygon Demograffig¹⁹ a gyhoeddwyd ym mis

¹⁴ <https://statswales.gov.wales/Catalogue/Population-and-Migration/Migration/Internal/migrationbetweenwalesandrestofuk-by-localauthority-flow-periodofchange>

¹⁵ <https://statswales.gov.wales/Catalogue/Population-and-Migration/Population/Components-of-Change/componentsofpopulationchange-by-localauthority-component>

¹⁶ <http://gov.wales/docs/statistics/2016/160929-local-authority-population-projections-2014-based-en.pdf>

¹⁷ <http://gov.wales/docs/statistics/2017/170323-household-projections-local-authorities-2014-based-en.pdf>

¹⁸ <http://gov.wales/docs/statistics/2016/160929-local-authority-population-projections-2014-based-en.pdf>

¹⁹ Papur Rhagolygon Demograffig Gorffennaf 2018 <https://www.sir-benfro.gov.uk/adolygur-cynllun-datblygu-lleol/cdli-2-aail-dystiolaeth>


Gorffennaf 2018 yn darparu ffigurau amcanestyniad poblogaeth ar gyfer ardal Sir Benfro o fewn y Parc Cenedlaethol a'r ardal y tu allan iddo (Sir Benfro - allan). Mae'n dangos, dros gyfnod y cynllun, er y rhagwelir y bydd y boblogaeth yn aros yn eithaf sefydlog ar gyfer Sir Benfro yn ei chyfanrwydd, y disgwylir y bydd dirywiad yn ardal y Parc Cenedlaethol a thwf yn Sir Benfro - allan. Yn achos Sir Benfro - allan, amcangyfrifir y bydd y boblogaeth 65+ oed yn cynyddu o +7,688 (32%) dros gyfnod 2017-2033, ac amcangyfrifir y bydd y grŵp oedran 0-15 yn gostwng -442 (-2%). Daw'r tabl canlynol o'r papur Rhagolygon Demograffig.

Grŵp Oedran	2017			2033		
	UA Sir Benfro	Sir Benfro allan	PCNP	UA Sir Benfro	Sir Benfro allan	PCNP
0-15	21,195	18,212	3,013	20,034	17,770	2,423
16-64	71,417	59,224	12,169	63,985	55,066	8,971
65+	31,344	24,373	6,982	39,803	32,061	7,590
<i>TOTAL</i>	<i>123,957</i>	<i>101,810</i>	<i>22,165</i>	<i>123,822</i>	<i>104,898</i>	<i>18,983</i>

4.3 Tai


4.3.1 Deilliodd gofyniad tai'r CDLI o ragamcaniadau aelwyd 2008 Llywodraeth Cymru. Roedd y rhagamcaniadau poblogaeth yn nodi bod cyfanswm o 5,724 o gartrefi newydd yn ofynnol o 2011-2021, ar gyfradd flynyddol o 572 y flwyddyn. Fel y gwelwyd yn y Twf Poblogaeth ac Aelwydydd (Adran 4.2), un prif beth sy'n sbarduno'r gofyniad tai yw lefel y newid poblogaeth a ffurfiant aelwydydd. Natur newidiol darparu aelwydydd yw un agwedd ar yr angen cynyddol am gartrefi. Mae'r Awdurdod yn bwriadu cyhoeddi papur opsiynau Twf i gefnogi Strategaeth a Ffafrir y Cynllun a fydd yn ystyried cyfraddau datblygiad hanesyddol, rhagamcaniadau ac ystyriaethau eraill²⁰.

²⁰ Polisi Cynllunio Cymru Argraffiad 9, paragraff 9.2.2



Graff 2: Cyflenwad Tir ar gyfer Tai rhwng 2007 a 2016

4.3.2 Mae gwaith ar JHLAS 2014 a 2015 ynghyd â gwaith cyfredol wedi nodi nifer o safleoedd lle bydd gwelliannau a raglennir i Waith Trin Dŵr Gwastraff yn cynyddu cyflenwad tir 5 mlynedd yr Awdurdod, ynghyd â safleoedd datblygu ychwanegol, wedi'u hepgor o'r banc tir 5 mlynedd oherwydd ansicrwydd datblygwr, sy'n barod i symud ymlaen mewn ymateb i alw. Ar hyn o bryd (JHLAS 2017), mae gan yr Awdurdod gyflenwad tir 5.1 mlynedd ac mae felly'n cwrdd â'r targed a osodwyd gan y Cynllun a gofynion Polisi Cynllunio Cenedlaethol. Nid yw JHLAS 2018 wedi'i chyhoeddi eto.



Graff 3: Anheddau a Gwblhawyd rhwng Ebrill 2007 ac Ebrill 2016

- 4.3.3 Ers 31 Mawrth 2018, cyflenwyd 2,103 allan o'r 5,724 o anheddau a ragwelwyd sy'n ofynnol gan y strategaeth. Er bod yma nifer sylweddol o anheddau, mae'r lefel gyflenwi islaw'r lefel sy'n ofynnol gan y strategaeth ar gyfer pum allan o'r chwe blynedd. Dangosir hyn yng Ngraff 3 uchod, sy'n dangos mai dim ond yn ystod un flwyddyn o gyfnod y cynllun CDLI y bodlonwyd y gofyniad o gyflenwi 572 o anheddau bob blwyddyn.
- 4.3.4 Cyrhaeddwyd y lefel uchaf o gwblhau anheddau yn 2015 pan gyflenwyd 588 o anheddau. Roedd y ffigur hwn yn rhagori ar y gofyniad blynyddol. Mae'r dirywiad economaidd wedi effeithio'n sylweddol ar gyflenwi anheddau dros y blynyddoedd diwethaf. Ar hyn o bryd, dim ond un adeiladwr tai cenedlaethol sy'n weithredol yn y Sir (Persimmon) ac mae datblygiad tai yn Sir Benfro'n dibynnu'n drwm o hyd ar lawer o adeiladwyr sy'n canolbwyntio ar ddatblygu safleoedd llai o faint. Mae hyn wedi galluogi'r lefel cwblhau tai i barhau'n gymharol sefydlog er gwaethaf yr ansicrwydd economaidd.
- 4.3.5 Cadarnhaodd Cyd-astudiaeth Argaeledd Tir ar gyfer Tai 2016 (JHLAS) nifer gymharol uchel o unedau sy'n parhau yng Nghategori 4 (3078 o unedau) ac yn cynnwys tir lle mae datblygiad yn annhebygol o fewn 5 mlynedd yn rhinwedd cyfyngiadau ffisegol mawr neu gyfyngiadau eraill fel y'u cytunwyd gan grŵp y gydastudiaeth. Mae JHLAS 2017 yn cofnodi bod ffigur Categori 4 wedi gostwng i 2,735, tra bo Categori 1 a 2 wedi codi i 3,464.²¹ Er y cyfyngiadau a nodwyd ar safleoedd penodol, dim ond ar gyfer y flwyddyn y mabwysiadwyd y cynllun y mae'r Cyngor wedi methu â chyflawni'r cyflenwad tir 5 mlynedd – sef 4.93 yn 2013.

4.4 Tai Fforddiadwy

- 4.4.1 Mae'r Cynllun Datblygu Lleol wedi ceisio gwneud y mwyaf o gyflenwi tai fforddiadwy, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig i helpu i gynnal cymunedau. Nodwyd bod angen bron 3,000 o gartrefi fforddiadwy yn Natganiad Cyflenwi Tai Fforddiadwy Sir Benfro 2007-2011²², a bod dros 2,150 o bobl wedi'u nodi fel rhai ag angen tai fforddiadwy arnynt ym mis Mawrth 2015. Roedd y CDLI yn ceisio darparu tai fforddiadwy ar gyfradd o 98 annedd y flwyddyn a 15% o'r anheddau a ganiatawyd ac a gwblhawyd. Mae lefel y tai fforddiadwy a

²¹ Categori fel y nodwyd yn Nodyn Cyngor Technegol 1 Cyd-astudiaeth Argaeledd Tir ar gyfer Tai, 4.4.2

²² Cyhoeddwyd ar y cyd gan Gyngor Sir Penfro ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro ac mae'n seiliedig yn helaeth ar y Gofrestr Tai Cyffredin.

gyflawnwyd wedi rhagori ar y lefelau hyn bob blwyddyn ers y mabwysiadu. Mae 897 o dai fforddiadwy i gyd wedi cael caniatâd cynllunio, allan o 4,370 o gartrefi, gan ddarparu cyfartaledd o 20.5%. Cyflawnodd cyfraddau a adeiladwyd 22% o'r rheini a gwblhawyd. Mae niferoedd y tai a'r tai fforddiadwy a adeiladir ac a ganiateir yn parhau i gyrraedd y targedau a osodwyd. Fodd bynnag, o ystyried y lefelau uchel parhaus o angen am dai fforddiadwy, gallai fod yn briodol ailystyried polisiau tai fforddiadwy'r CDLI wrth sicrhau dichonolrwydd datblygiad a bod modd cyflenwi datblygiad. Yn ôl gwaith monitro prisiau taith, nid oes angen addasu targedau cyfraniad tai fforddiadwy. Ers y mabwysiadu, mae'r cyfraniadau a gafwyd o dan bolisi 'GN.3 Seilwaith a Datblygiad Newydd' wedi cyflawni £738k tuag at dai fforddiadwy. Cyfrannwyd dros £5miliwn tuag at ddibenion eraill a nodwyd ym Mholisi GN.3.


4.5 Cyflogaeth

- 4.5.1 Ymhlith ei flaenoriaethau strategol, mae Diweddariad 2008 Cynllun Gofodol Cymru yn datgan nod o ddatblygu economi amrywiol, entrepreneuriaidd sy'n seiliedig ar wybodaeth, ac mae'n nodi bod ynni a'r amgylchedd yn allweddol er mwyn llwyddo yn y maes hwn. I gefnogi'r potensial am dwf mewn technolegau ynni adnewyddadwy / porthladd ac ynni, dyrannir tir a chaiff polisiau sy'n seiliedig ar feini prawf eu cynnwys yn y Cynllun. Mae'r CDLI yn dyrannu 97.55ha o dir cyflogaeth strategol (gweler para 2.5.1), 77.8ha o dir cyflogaeth, a 11.42 ha o ddyraniadau defnydd cymysg.
- 4.5.2 Er cafwyd cynnydd rhesymol ar weithredu dyraniadau cyflogaeth leol polisi GN.5, mae hwn yn amrywio'n sylweddol yn ôl safle. Yn llai llwyddiannus fu'r tri dyraniad defnydd cymysg ym mholisi GN.7, a dim un ohonynt wedi'i weithredu (er bod gan un ohonynt ganiatâd cyflogaeth / tai defnydd cymysg o hyd).
- 4.5.3 Mae Sir Benfro'n cynnwys datblygiadau sylweddol cysylltiedig ag ynni sydd o bwysigrwydd cenedlaethol, yn enwedig yn ardal Aberdaugleddau. Gall cau neu ehangu'r safleoedd cyflogaeth gael effaith sylweddol ar argaeledd tir yn awdurdodaeth y Cyngor. Hefyd, ledled ardal y Cynllun, mae busnesau bach a chanolig yn bwysig.
- 4.5.4 Y tir a nodwyd at ddibenion cyflogaeth (caniatawyd, dyrannwyd neu adeiladwyd) yn 2013 oedd 1137.37ha, y tu allan i'r Parc Cenedlaethol. Erbyn 2017 cynyddodd i 1200ha. Yn 2017, roedd 984ha yn cael ei ddefnyddio'n weithredol yn dir cyflogaeth. Cofnodwyd bod cyfanswm o 192.5ha yn wag (gan gynnwys adeiladau) yn 2013, a chofnodwyd bod hyn yn 216ha yn 2017. Roedd 18% o lefel gwagle yn 2017, ond mae ei dosbarthiad daearyddol yn amrywio'n helaeth. Mae newidiadau sylweddol mewn defnydd tir ar safleoedd presennol y naill flwyddyn ar ôl y llall, wrth i rannau ohonynt fynd yn segur neu gael eu hailddefnyddio. Mae darpariaeth gyffredinol safleoedd diwydiannol cyffredinol

yn dda ar y cyfan, a'r nifer sy'n manteisio arnynt, ond efallai bydd angen newidiadau i ddyraniadau mewn rhai lleoliadau wrth baratoi CDLI2. Mae darparu unedau â gwasanaeth yn her o hyd, am fod cyllid i adeiladu unedau newydd yn anodd ei sicrhau ac efallai na fydd datblygiad yn ddichonadwy hebdo.

4.5.5 Yn gyffredinol, mae lefelau gwagle'n uwch yn y Aberdaugleddau, gan adlewyrchu bod angen darparu amrywiaeth o gyfleoedd, a'r effaith y gall defnydd neu wagle safleoedd mawr unigol o dir neu adeiladau ei chael ar gyfraddau gwagle y naill flwyddyn ar ôl y llall. Mae Neyland ac Arberth yn cynnal cyfraddau gwagle isel. Bydd dosbarthiad tir cyflogaeth a'r nifer sy'n manteisio arno yn cael eu hadolygu i sicrhau y gellir cyflenwi'r safleoedd o hyd a'u bod yn briodol mewn perthynas ag unrhyw ddiwygiad i strategaeth y cynllun, cydestun newidiol drwy Bolisi Cynllunio Cymru diwygiedig, dynodi Ardal Fenter Dyfrffordd y Ddau Gleddau yn 2015 (gweler paragraff 4.5.9 isod) a gwaith rhanbarthol gan gynnwys prosiectau Rhanbarth Dinas Bae Abertawe yn Sir Benfro.

4.5.6 Yn Atodiad 3 nodir a ydy dyraniadau cyflogaeth y CDLI, gan gynnwys safleoedd cyflogaeth, yn cael eu cyflenwi.



Graff 4: Newid mewn Cyflogaeth yn ôl Dosbarth Defnydd (yn cael ei ddefnyddio) 2015-2017

- 4.5.7 Mae prif ddylanwad B2, B8 a defnyddiau eraill yn adlewyrchu'r safleoedd diwydiannol mawr yn Nyfrffordd Aberdaugleddau. Ailddefnyddiwyd safle Purfa Aberdaugleddau (Murco) fel cyfleuster storio (ar gyfer Ynni Puma) yn 2016 ac mae'n egluro'r cynnydd yn arwynebedd B8 rhwng 2015 a 2016.
- 4.5.8 Ailystyri'r graddfa a dosbarthiad safleoedd cyflogaeth i sicrhau nad yw safleoedd a ddatblygwyd yn llawn yn cael eu dyrannu rhagor (fodd bynnag, bydd gweithgarwch ar safleoedd felly'n cael ei fonitro o hyd). Ni fu'n llwyddiannus dyrannu safleoedd defnydd cymysg a byddant yn cael eu hailystyried yng ngoleuni'r angen parhaus i ddarparu dewis mewn cyfleoedd cyflogaeth ac i ystyried dewisiadau defnydd amgen ar safleoedd nad oes eu hangen mwyach at ddibenion cyflogaeth.
- 4.5.9 Dynodwyd Ardal Fenter Dyfrffordd y Ddau Gledau yn 2015. Er bod maint yr Ardal Fenter wedi'i diffinio'n ofodol, polisi cyllidol ydyw heb unrhyw oddefebau cynllunio perthynol. Ceir cymhellion i gwmnïau ehangu neu symud am y tro cyntaf i'r Ardal Fenter a dylid cydnabod hyn yn yr adolygiad.

4.6 Effaith Newid yn yr Hinsawdd

- 4.6.10 Mae Polisi Cynllunio Cymru Argraffiad 9 (yn 4.5.3) yn nodi'r effeithiau y gall Cymru eu disgwyl o ganlyniad i'r newid yn yr hinsawdd. Mae disgwyl y bydd newid yn yr hinsawdd yn cynnwys –
- Cynnydd mewn glaw yn y gaeaf a glaw trwm mwy rheolaidd
 - Lefel y môr yn codi
 - Tywydd mwy eithafol, fel stormydd garw
- 4.6.11 Mae disgwyl y bydd y newid yn yr hinsawdd yn cael effeithiau amrywiol, gan gynnwys mwy o lifogydd sydyn oherwydd glaw trwm a mwy o lifogydd ac erydu afonydd a'r arfordir. Mae Polisi Cynllunio Cymru (4.5.5) yn cadarnhau bod yr effeithiau hyn yn achosi peryglon i bobl, eiddo, isadeiledd ac adnoddau, ynghyd â her hanfodol i'r ffordd rydyn ni'n datblygu ac yn defnyddio tir, ac yn darparu seilwaith amgylcheddol yng Nghymru. Mae angen cynllunio ar gyfer yr effeithiau hyn, a galluogi'n hamgylchedd naturiol a'n hamgylchedd adeiledig i wrthsefyll y newid yn yr hinsawdd yn well. Rhaid cynllunio ar gyfer y newid yn yr hinsawdd mewn ffordd sy'n cyd-fynd ag egwyddorion cynaliadwyedd.
- 4.6.12 Gan fod ardaloedd cyfyngedig o awdurdodaeth cynllunio Cyngor Sir Penfro ar yr arfordir, mae angen ystyried effaith y newid yn yr hinsawdd ar gymunedau arfordirol ac mewn mannau eraill lle mae disgwyl y bydd llifogydd a lle na all

lliniaru fynd i'r afael â'r effaith. Bydd yr Awdurdod yn cyhoeddi papur cefndirol sy'n ystyried goblygiadau newid yn yr hinsawdd a pherygl llifogydd ac yn nodi'r ffordd orau ymlaen er mwyn helpu i hysbysu adolygiad o'r CDLI.

- 4.6.13 Yn ddiweddar mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi ymgynghoriad drafft Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru. Caeodd yr ymgynghoriad ar 29 Mawrth 2018. Mae ei oblygiadau ar gyfer adolygiad y CDLI yn parhau i gael eu hasesu, a byddant yn cael eu hystyried yn ystod adolygiad y CDLI pan gyhoeddir y Cynllun Morol Cenedlaethol.

5. Polisiâu Cyffredinol y Cynllun Datblygu Lleol

5.1 Cyflwyniad

5.1.1 Adolygwyd Polisiâu Cyffredinol y Cynllun Datblygu Lleol mewn perthynas â chanfyddiadau'r Adroddiadau Monitro Blynyddol, newidiadau cyd-destun arwyddocaol a newidiadau i bolisi a deddfwriaeth genedlaethol. Crynhoir yn Atodiad 4 a ydy polisiâu'n gweithio'n dda. Mae'n awgrymu a oes newidiadau'n debygol o fod yn angenrheidiol gan ystyried yr ystyriaethau uchod, a'r ymatebion a gafwyd gan randdeiliaid allweddol. Ystyrir isod y polisiâu hynny y mae gofyn eu newid am nad ydynt yn cyflenwi gofynion strategaeth y cynllun, neu oherwydd newid cyd-destunol sylweddol.

5.2 Polisi GN.1 Polisi Datblygu Cyffredinol

5.2.2 Mae Polisi GN.1 yn darparu fframwaith i werthuso effeithiau datblygu posibl ac mae'n fodd o sicrhau bod pob datblygiad yn briodol i'r lleoliad uniongyrchol a'i safle a'i gyd-destun ehangach. Mae gweithredu'r polisi hwn fel y cafodd ei fonitro drwy'r AMB wedi amlygu pryderon ynghylch maen prawf 3. Ystyrir bod pob cynnig sy'n effeithio'n andwyol ar gymeriad, ansawdd ac amrywiaeth tirwedd yn groes i'r polisi hwn. Nid yw'r dull hwn yn mynd i'r afael yn ddigonol â'r potensial i effaith fod yn ddibwys neu'n fach ac yn amgylcheddol dderbyniol. Mae gofyn adolygu'r polisi hwn i fynd i'r afael â'r potensial am effaith annerbyniol. Bydd polisi diwygiedig GN.1 yn cael ei gyhoeddi yn y Strategaeth a Ffefrir ddrafft.

5.3 Ynni Adnewyddadwy

5.3.1 Mae nod Llesiant²³ 'Cymru ffyniannus' yn ceisio cymdeithas arloesol, gynhyrchiol a charbon isel. Mae PC Cymru yn cefnogi trawsnewid i gymdeithas carbon isel ac yn ei gwneud yn ofynnol i Awdurdodau Cynllunio Lleol ystyried y cyfraniad y gall eu hardaloedd ei wneud i'r ffordd y mae'n cael ei cfwlawni, gan gynnwys polisiâu addas ar gyfer y cynllun datblygu. Roedd llythyrau i awdurdodau lleol gan y Gweinidog Cyfoeth Naturiol, Rhagfyr 2015 a Mawrth 2016, yn nodi gofynion Llywodraeth Cymru mewn perthynas â Phhecyn Cymorth Ynni Adnewyddadwy diwygiedig i Gynllunwyr i nodi polisiâu ar gyfer datblygiadau ynni adnewyddadwy gan gynnwys, lle bo'n briodol, adnabod safleoedd ar gyfer ynni adnewyddadwy, strategaethau lleol a/ neu ddyraniadau gofodol. Cyhoeddodd yr Awdurdod Asesiad Ynni Adnewyddadwy CDLI ym mis Ebrill 2017. Mae hwn yn rhan o'r sail dystiolaeth i CDLI2 ac mae'n sail i ystyried a oes angen unrhyw newidiadau ar ymagwedd gyfredol y CDLI at Ynni Adnewyddadwy. Caiff polisi GN.4 ei alddrafftio i adlewyrchu'r cyd-destun presennol.

²³ Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

5.4 Adwerthu

- 5.4.1 Comisiynodd yr Awdurdod Astudiaeth Adwerthu Sir Gyfan (2010) i ganfod gofynion arwynebedd llawr adwerthu cyfleuster a chymhariaeth drwy gydol oes CDLI1. Amcangyfrifwyd y byddai arwynebedd llawr cyfleuster a chymhariaeth yn ofynnol erbyn 2021 i gefnogi'r ddarpariaeth adwerthu bresennol. Roedd dyraniadau ar gyfer datblygiad adwerthu wedi'u cynnwys yn y cynllun i fodloni'r 'angen' adwerthu a nodwyd.

GN.13 Dyraniadau Manwerthu

Mae'r safleoedd canlynol wedi'u dyrannu ar gyfer datblygiadau manwerthu:

ID Manwerthu	Enw Safle	Defnydd	Arwynebedd (ha)
RT/040/01	Safle Fred Rees, Hwlfordd	Unedau cymharu	0.31
RT/096/01	Canolfan Sant Gofan, Doc Penfro	Cymysgwch o unedau cymharu ac unedau cyfleustra	0.23
RT/034/01	Safle'r Hen Ysgol Gynradd, Abergwaun	Cyfleustra - siop fwyd	1.34
RT/088/01	Safle'r Hen Ysgol Gynradd, Arberth	Cymysgwch o unedau cymharu ac unedau cyfleustra	0.41
RT/050/01	Dyraniad siop fwyd Kingsmoor, Cilgeti	Cyfleustra - siop fwyd	2.86

- 5.4.2 Er bod Canolfan Sant Gofan yn cael ei defnyddio at adwerthu ar hyn o bryd, nid yw gweddill y dyraniadau adwerthu wedi'u cyflwyno yn ystod cyfnod y cynllun hyd yma, ond cyflwynwyd nifer o ddatblygiadau adwerthu amgen mewn mannau eraill. Ystyriwyd bod astudiaeth ddiwygiedig o allu adwerthu yn briodol i ganfod a ydy dyraniadau adwerthu presennol neu bellach yn briodol yn yr adolygiad o'r Cynllun ac wrth edrych ymlaen at 2036. Cynhaliwyd yr Astudiaeth o Allu yn 2016 ac fe'i cyhoeddwyd ym mis Chwefror 2017; yn gryno, dengys nad oes unrhyw angen cyfleuster a llai o angen cymhariaeth dros gyfnod cynllun CDLI2. Dylid adolygu'r dyraniadau adwerthu yn y Cynllun Datblygu Lleol i gyfrif am y newid hwn yn y sail dystiolaeth ac i ystyried a ydy dyraniadau pellach neu amgen yn ofynnol.
- 5.4.3 Mae Polisi Cynllunio Cymru a Nodyn Cyngor Technegol 4, sy'n rhannu'r teitl 'Datblygiad Adwerthu a Masnachol', wedi'u diwygio a'u hailgyhoeddi gan Lywodraeth Cymru (Tachwedd 2016). Yn sgil hyn, mae gofyn diwygio strategaeth adwerthu'r Cynllun i adlewyrchu newidiadau i gyfarwyddyd, y dirywiad economaidd a gafwyd yng nghanol rhai trefi a'r Uwchgynlluniau Canol Tref / Strategaethau Adfywio diweddar ac sy'n dod i'r amlwg.

5.5 Twristiaeth

5.5.1 Dengys yr AMB fod polisïau'r Cynllun Datblygu Lleol ar gyfer cynigion twristiaeth yn gweithio'n dda o ran cynigion yn cael eu cyflwyno. Yn ystod AMB5 (1 Ebrill 2017 i 31 Mawrth 2018) cymeradwywyd 10 o gynigion cynllunio mewn perthynas â'r economi ymwelwyr, gyda 2 yn groes i bolisi ond yn cael eu cyfiawnhau gan ystyriaethau perthnasol eraill. Mae'r cyd-destun yn newid ar gyfer llety twristiaid am fod cabanau, pebyll crwyn, cytiau bugail a glampio yn fwyfwy poblogaidd erbyn hyn, a pholisïau'r CDLI yn darparu'n llwyddiannus ar eu cyfer. Mae'r Awdurdod yn bwrw ymlaen ag Asesiad Cymeriad Tirwedd ar gyfer yr ardal y tu allan i'r Parc Cenedlaethol a bydd, yn rhan o'r gwaith hwn, yn ystyried gallu'r dirwedd i ddarparu ar gyfer datblygu twristiaeth i hysbysu'r adolygiad o'r Cynllun. Bydd angen adolygiad o'r strategaeth twristiaeth.

5.6 Mwynau

5.6.1 Ymgorfforwyd Polisi Cynllunio Mwynau Cymru (2001) Llywodraeth Cymru ym Mhennod 14 o Bolisi Cynllunio Cymru (PCC) yn 2016. Mae Nodiadau Cyngor Technegol Mwynau (MTAN) amrywiol yn parhau ochr yn ochr â Phennod 14 PCC.

5.6.2 Cyhoeddwyd Adolygiad 1^{af} y Datganiad Technegol Rhanbarthol ar gyfer Agregau o ran De Cymru a Gogledd Cymru ym mis Awst 2014. Mae disgwyl iddo gael ei adolygu ymhellach yn ystod 2019.

5.6.3 Mae Adolygiad 1^{af} y Datganiad Technegol Rhanbarthol ar gyfer Mwynau yn sefydlu dull rhanbarthol o ddarparu tywod a graean yn ne-orllewin Cymru yn y dyfodol. Mae hwn yn mynnu cydweithio rhwng cyn-awdurdodau Dyfed, gan dderbyn bod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro'n annhebygol o fod yn lleoliad i safleoedd cynhyrchu newydd. Nid yw'n ofynnol i Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol gynnal banc tir mwynau, er y gall fod cynhyrchiant o fewn eu ffiniau.

5.6.4 Y dosraniad rhanbarthol i Sir Benfro, Ceredigion a Sir Gaerfyrddin ar gyfer tywod a graean o'r tir yw 0.33 miliwn o dunelli bob blwyddyn, hyd nes diwedd cyfnod y cynllun ac am saith blynedd wedyn. Ar gyfer agregau craig fâl, 1.09 miliwn tonnall y flwyddyn ydyw hyd ddiwedd cyfnod y cynllun ac am 10 mlynedd wedyn. Yn ôl y Datganiad Technegol Rhanbarthol, *'oni roddwyd caniatâd newydd ers mis Rhagfyr 2010 i fynd i'r afael â'r diffyg tywod a graean canlynol, bydd angen nodi dyraniadau newydd sy'n gyfanswm o 2.94 miliwn tonnall o leiaf yn CDLlau un neu ragor o'r pedwar awdurdod sy'n rhannu'r dosraniad'*.

5.6.5 Nid oedd y CDLI cyfredol yn dyrannu safle(oedd) newydd ar gyfer cynhyrchu tywod a graean daearol oherwydd yr ansicrwydd ynghylch a fyddent yn dechnegol neu'n ariannol ddichonadwy i'w chwarela yn ystod cyfnod y Cynllun. Byddai barn y diwydiant yn helpu i hysbysu'r adolygiad o'r Cynllun.

- 5.6.6 Ar gyfer Craig Fâl, mae digon o safleoedd amgen yn lle'r rheini yn y Parc Cenedlaethol a bydd y banc tir sydd ar gael ar ddiwedd cyfnod y CDLI cyfredol (2021) yn fwy na digon i fodloni disgwyliadau Llywodraeth Cymru. Yn yr achos hwn, mae'r dosraniad yn parhau i ymwneud ag ardaloedd awdurdodau unigol yn hytrach nag â rhanbarth mwy.
- 5.6.7 Mae Adolygiad 1^{af} y Datganiad Technegol Rhanbarthol ar gyfer Agregau yn cynghori y dylai pob glanfa a phen rheilffordd presennol a phosibl newydd gael eu nodi ar gyfer diogelu yn y CDLI, er mwyn darparu ar gyfer ystod lawn o opsiynau cludiant cynaliadwy (ni waeth a ydynt yn cael eu defnyddio ar hyn o bryd).
- 5.6.8 Cyflwynir gwaith mwynau yn ardal gynllunio'r Cyngor yn Atodiad 2 o'r CDLI cyfredol. Bydd angen diweddarau'r tabl hwn ar gyfer y CDLI newydd, a'r sail ddiweddaraf ar ei gyfer ar hyn o bryd yw Adroddiad Blynyddol Gweithgor Agregau Rhanbarthol De Cymru ar gyfer 2016 (a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2018). Gellir diweddarau hwn ymhellach gan gyfeirio at ganiatâd mwynau a roddwyd ers 2014 a bydd yn rhan o'r adolygiad o fwynau.

5.7 Sipsiwn a Theithwyr

- 5.7.1 Cynhaliwyd yr Asesiad o Lety Sipsiwn a Theithwyr (GTAA) yn 2010 a hysbysodd y CDLI a fabwysiadwyd, ac roedd yn nodi bod angen 40 o leiniau ychwanegol erbyn 2015. Gwnaethpwyd dyraniadau i fodloni'r angen hwn yn Chwarel Catshole (Cil-maen) a Thir Comin Kingsmoor, Cilgeti i ddarparu ar gyfer 23 o leiniau. Ni nodwyd unrhyw angen am leiniau dros dro yn ystod yr un cyfnod. Ni fodlonwyd yr angen hwn erbyn 2015. Mae'r asesiad o anghenion llety Sipsiwn a Theithwyr, a'r ddyletswydd i ddarparu ar gyfer safleoedd lle mae'r asesiad yn nodi bod eu hangen, yn ofynion statudol ers Deddf Tai (Cymru) 2014. Mae'r Cyngor wedi diweddarau'r GTAA (2015) gan ganfod bod llai o angen am leiniau - mae 32 o leiniau preswyl, a dwy iard Pobl Sioe Deithiol yn ofynnol rhwng 2015 a 2020 - llai o angen nag a nodwyd yn flaenorol. Rhagwelir mai'r angen heb ei fodloni yn ystod y cyfnod hyd at ddiwedd 2031 ar gyfer Cynlluniau dan ystyriaeth APCAP a CSP yw 101 o leiniau, a'r ddwy iard y soniwyd amdanynt yn barod.
- 5.7.2 Mae canfyddiadau GTAA 2015 yn nodi bod angen llety ychwanegol. Mae'r angen wedi'i grwpio yn ardaloedd daearyddol, sef Hwlfordd, Penfro / Doc Penfro a Chilgeti lle mae safleoedd presennol a mynediad at wasanaethau lleol (gweler GTAA). Drwy gynnwys polisi seiliedig ar feini prawf yn y Cynllun Datblygu Lleol, bu'n bosibl hefyd datblygu nifer sylweddol o leiniau preifat. Er bod swm sylweddol o angen GTAA 2015-2020 wedi'i fodloni erbyn diwedd 2018, rhagwelir y bydd adolygiad cynnar o GTAA yn canfod yr angen hyd ddiwedd cyfnod y Cynllun.

5.8 Cyfleusterau Cymunedol

5.8.1 Roedd y CDLI a fabwysiadwyd yn dyrannu ystod o gyfleusterau cymunedol ym Mholisi GN.33 'Cyfleusterau Cymunedol'. Mae'r polisi hwn hefyd yn caniatáu cynigion am gyfleusterau newydd, neu golli cyfleusterau, i'w hystyried o dan ddull seiliedig ar feini prawf. Yn gyffredinol, nid yw dyraniadau Polisi 33 wedi'u cyflwyno (gweler Atodiad 3) ac eithrio estyniad ysbyty Llwynhelyg lle mae'r tir wedi'i ddefnyddio yn faes parcio ar y cyd â datblygiadau eraill yn yr ysbyty ac mae trosglwyddo tir wedi digwydd yn Slade Lane i gefnogi'r dyraniad am ysgol. Bydd asesiad yn ofynnol i ystyried a ydy'r dyraniadau sy'n weddill yn ofynnol o hyd ac a ddylid dyrannu'r cyfleusterau cymunedol hyn neu rai amgen/newydd. Mae hefyd angen ailystyried pa ddatblygiadau a defnyddiau tir a ddylai ddod o fewn cwrpas y polisi hwn.

5.9 Mannau Agored

5.9.1 Cynhaliwyd Asesiad o Fannau Agored yn 2010. Canolbwyntiodd yr asesiad ar 57 o aneddiadau a nodwyd yn y Cynllun Datblygu Lleol. Nodwyd cyfanswm o 336 o fannau agored ac fe'u rhannwyd yn hamdden ffurfiol, hamdden anffurfiol, ardaloedd chwarae â chyfarpar, lle agored amwynder, a thir addysg (nid yw tir addysg wedi'i gyfrif yn y safonau). Bydd Asesiad Mannau Agored diwygiedig yn ystyried y safonau Meysydd Chwarae diweddaraf.

5.9.2 Ar y cyfan, mae gorgyflenwad o fannau agored ar draws aneddiadau'r Awdurdod ond nid ydynt wedi'u dosbarthu'n gyfartal ar draws aneddiadau a methodd 30 o'r 57 anheddiad â chyrraedd y Safon Meysydd Chwarae. Nodwyd diffygion ar gyfer llawer o'r mathau o fan agored mewn perthynas â safon 2.4 hectar Meysydd Chwarae²⁴ mewn aneddiadau trefol a gwledig, yn enwedig ar gyfer ardaloedd chwarae â chyfarpar mewn ardaloedd trefol a meysydd chwarae a lle chwaraeon awyr agored mewn aneddiadau gwledig.

5.9.3 Nid yw AMB y CDLI yn nodi bod colli mannau agored yn broblem, ac roedd cynnydd cyffredinol o 3.47 ha o fannau agored, a mannau chwaraeon a hamdden²⁵. Bydd dylanwad y Nod Llesiant am Gymru iachach yn ystyriaeth yn yr adolygiad o'r CDLI ac ar gyfer polisïau GN.33 Cyfleusterau Cymunedol, GN.34 Gwarchod a Chreu Ardaloedd Hamdden Awyr Agored a GN.35 Gwarchod Mannau Agored â Gwerth Amwynder a Chanllawiau Cynllunio Atodol y Rhwymedigaethau Cynllunio.

5.9.4 Comisiynwyd Astudiaeth Seilwaith Gwyrdd gan yr Awdurdod (ar y cyd ag Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro) i nodi'r adnodd seilwaith gwyrdd presennol, cyfleoedd i ddatblygu cysylltiadau seilwaith gwyrdd ac estyn y

²⁴ Yn flaenorol safon 6 erw y Gymdeithas Meysydd Chwarae Genedlaethol ar gyfer darparu mannau agored i bob 1000 o'r boblogaeth. <http://www.fieldsintrust.org/guidance>

²⁵ Collwyd 0.07 hectar o ofod amwynder agored o ganlyniad i 15/0947/PA ar gyfer tai fforddiadwy yn Queen Street, Doc Penfro. Dangosodd darpariaeth tai fforddiadwy yn y lleoliad hwn gydymffurfiaeth â GN.35 'Diogelu Mannau Agored sydd â Gwerth Amwynder'.

rhwydwaith gwyrdd. Mae'r astudiaeth, a gyhoeddwyd gan yr Awdurdod ym mis Mehefin 2018, yn cynnwys trefi Abergwaun ac Wdig, Arberth, Penfro, Hwlfordd, Doc Penfro, Aberdaugleddau, Neyland; (a Thyddewi, Trefdraeth, Dinbych-y-pysgod a Saundersfoot o fewn y Parc Cenedlaethol). Bydd yn ffurfio rhan o sylfaen dystiolaeth yr awdurdod a bydd yn dylanwadu ar bolisi.

5.10 Lletemau Glas

5.10.1 Mae Polisi Cynllunio Cymru'n mynnu bod Lletemau Glas yn cael eu hadolygu'n rhan o broses adolygu'r Cynllun Datblygu Lleol (paragraff 4.8.1). Mae Polisi GN.36 'Lletemau Glas' fel petai'n gweithio'n dda, gydag un cais yng Nghwm Abergwaun²⁶ yn cael ei ganiatáu yn groes i Bolisi GN.36. Nid oes unrhyw bryderon ynghylch gweithredu'r polisi. Bydd yr adolygiad o letemau glas yn ystyried a ddylai ardaloedd dynodedig gael eu cadw neu eu diwygio ac a oes ardaloedd newydd yn ofynnol, a gallai arwain at newidiadau i gymhwysiad gofodol y polisi.

5.11 Yr Amgylchedd Hanesyddol

5.11.1 Mae gwaith monitro blynyddol y polisi amgylchedd hanesyddol (GN.38 Gwarchod a Gwellu'r Amgylchedd Hanesyddol) wedi nodi problem gyda geiriad polisi GN.38. Mae'r geiriad yn gofyn bod rhaid ystyried bod cynnig yn groes i'r polisi, hyd yn oed lle nodir effaith andwyol gyfyngedig. Ystyrir aralleirio'r polisi yn ystod yr adolygiad i sicrhau cydbwysedd priodol o faterion wrth ystyried unrhyw gynnydd. Yn ogystal, prin fu'r newid cyd-destunol, gan gynnwys adolygu'r ffiniau Ardal Gadwraeth yn Abergwaun ac Wdig, cyflwyno Cyfarwyddiadau Erthygl 4(2) yng Nghwm Abergwaun ac Wdig. Mae newidiadau pellach yn bosibl i ffiniau Ardal Gadwraeth, y dylid diweddarau eu harddangos yn rhan o'r adolygiad o'r CDLI. Bydd Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016 yn cael ei hystyried hefyd.

5.12 Cludiant

5.12.1 Bu pedwar awdurdod yn Ne-orllewin Cymru'n cydweithio i lunio Cyd-gynllun Cludiant (2015-2020), sydd wedi disodli Cynllun Cludiant Rhanbarthol cynharach. Yr awdurdodau yw Sir Benfro, Sir Gaerfyrddin, Castell-nedd Port Talbot ac Abertawe, sy'n cyd-redeg â Rhanbarth Dinesig Bae Abertawe. Bydd yn darparu'r fframwaith i wella cysylltedd cludiant a mynediad i'r rhanbarth, ohono ac o'i fewn ar gyfer y cyfnod 2015-2020. Bydd y cynlluniau cludiant blaenoriaeth i Sir Benfro a nodwyd yn y Cyd-gynllun Cludiant yn cael eu

²⁶ 16/0420/PA am newid defnydd o storfa gyffredinol i ardd, sied a thŷ gwydr domestig ac adfer odyngalch

hystyried yn yr adolygiad, ynghyd ag unrhyw gynlluniau pellach a ddaeth i'r amlwg ers ei gyhoeddi ac unrhyw gynlluniau sydd wedi'u cyflenwi'n rhannol neu'n llawn ers mabwysiadu'r CDLI ac nad oes angen eu dangos rhagor.²⁷

5.13 Gwastraff

5.13.1 Mae Polisi Cynllunio Cymru a Nodyn Cyngor Technegol 21 'Gwastraff' yn cynghori y dylai cynlluniau datblygu arddangos sut yr ystyriwyd polisi gwastraff cenedlaethol, ac yn benodol y Cynllun Sector CIM (Casgliadau, Seilwaith a Marchnad), ynghyd ag unrhyw sefyllfa wedi'i diweddaru a fabwysiadwyd yn yr Adroddiadau Monitro Cynllunio Gwastraff ac unrhyw fath arall o flaenoriaethau rheoli gwastraff sy'n berthnasol i'w hardal. Mae TAN21 yn cynghori bod gwaith asesu gwastraff pellach yn angenrheidiol ar y lefel ranbarthol (neu gynllun datblygu lleol) am fod y Cynllun Sector CIM yn darparu man cychwyn strategol. Bydd cydweithio rhanbarthol parhaus yn helpu i hysbysu'r monitro, a rhwydwaith priodol o gyfleusterau gwaredu ac adfer gwastraff. Cyhoeddwyd dau Adroddiad Monitro Cynllunio Gwastraff ar gyfer De-orllewin Cymru (gan gynnwys Sir Benfro) gan Lywodraeth Cymru. Mae angen ailystyried y mater hwn yn yr adolygiad o'r CDLI, i sicrhau y gwneir darpariaeth ddigonol am reoli gwastraff yn ardal y Cynllun, naill ai drwy bolisiau seiliedig ar feini prawf, dyraniadau, neu gymysgedd o'r ddau. Gellir caffael mathau penodol o gyfleusterau rheoli a thrin gwastraff ar sail ranbarthol yn y dyfodol.

5.14 Map Cynigion

5.14.1 Mae Map Cynigion y CDLI yn dangos polisiâu, cynigion a dyraniadau gyda chydran ofodol. Dengys Map Cynigion CDLI1 nifer o ddynodiadau a bennir gan fecanweithiau y tu hwnt i'r broses CDLI. Nid oes angen dangos y dynodiadau hyn ar y Map Cynigion (gweler Llawlyfr y Cynllun Datblygu Lleol Argraffiad 2 Awst 2015, tudalen 16). Mae'n cynghori y gellir dangos y dynodiadau hyn ar fap cyfyngiadau, gan gynnwys cyfyngiadau gofodol ar gyfer Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 15 'Datblygu a Risg Llifogydd', a dynodiadau tirwedd statudol e.e. AHNE. Gellir diwygio'r map cyfyngiadau y tu allan i'r broses CDLI i ystyried newidiadau. Er nad yw'r map cyfyngiadau yn ofyniad statudol ac er nad yw'n rhan o'r CDLI, dylai'r CDLI gyfeirio eto, gwneud ei statws yn glir a rhestru'r dynodiadau y mae'n eu cynnwys. Bydd barn rhanddeiliaid yn bwysig wrth benderfynu a fyddai map cyfyngiadau'n rhoi eglurder ychwanegol ac a ddylai ffurfio rhan o'r adolygiad.

²⁷

https://pembrokeshire.gov.uk/content.asp?nav=101,100&parent_directory_id=646&id=31891&d1=0

6. Arfarniad o Gynaliadwyedd

- 6.1.1 Mae adolygiad o'r fframwaith cwmpasu ac asesu arfarnu cynaliadwyedd yn ofynnol (llawlyfr CDLI 10.3).
- 6.1.2 Cynhaliwyd yr adolygiad o gynlluniau, polisïau a rhaglenni a chasglwyd y data dechreuol sy'n hysbysu'r CDLI yn 2008 a chyhoeddwyd adroddiad cwmpasu yn ymgorffori sylwadau ymgynghoriad ym mis Ionawr 2009. Drwy gydol y gwaith o baratoi CDLI1, diweddarwyd yr adolygiad o gynlluniau, polisïau a rhaglenni yn briodol i adlewyrchu unrhyw newidiadau neu ddiweddariadau yng nghyfnodau amrywiol gwaith paratoi'r cynllun. Aseswyd polisïau mewn perthynas â'r amcanion arfarnu cynaliadwyedd ac fe'u llywiwyd gan yr Arfarniad o Gynaliadwyedd drwy gydol cyfnod llunio'r cynllun.
- 6.1.3 Mae Adroddiadau Monitro Blynyddol (AMB1-5) y Cynllun Datblygu Lleol yn monitro perfformiad y cynllun mewn perthynas â'r amcanion arfarnu cynaliadwyedd. Mae AMB 3/4 yn cynghori bod prif effeithiau'r cynllun yn gadarnhaol o'u mesur mewn perthynas â'r amcanion arfarnu cynaliadwyedd. Nodwyd rhai materion monitro yn AMB y CDLI ac efallai bydd angen mynd i'r afael â'r materion hyn mewn modd mwy cynaliadwy yn CDLI2. Mae hyn yn cynnwys y meysydd polisi: canol trefi, darparu lleiniau sipsiwn teithwyr, mwynau, a thai (gan gynnwys y cyflenwad tir ar gyfer tai). Bydd angen hefyd ystyried dangosyddion ar gyfer poblogaeth, ansawdd dŵr (gan gynnwys canlyniad y dynodiad Parthau Perygl Nitradau), cyflogaeth a'r economi yn CDLI2.
- 6.1.4 Nid yw gwaith monitro Arfarniad o Gynaliadwyedd blaenorol CDLI1 wedi amlygu materion sylweddol a warantodd weithredu pellach heblaw'r rheini a amlygwyd yn flaenorol, ond mae hyn yn berthnasol i'r dangosyddion arfarnu cynaliadwyedd yn hytrach na sbardunau'r CDLI.
- 6.1.5 Bydd y cynllun yn destun Arfarniad Rheoliadau Cynefinoedd pellach a bydd hwn yn digwydd yn iterus drwy gydol yr adolygiad o'r cynllun, gan gynnwys y cam Strategaeth a Ffefrir
- 6.1.6 Yn unol â Llawlyfr y CDLI (Adran 3.4.2), bydd CDLI2 yn destun gofynion arfarnu cynaliadwyedd ac gwelwyd mai'r fethodoleg wreiddiol sydd fwyaf priodol. Mae'r fframwaith arfarnu cynaliadwyedd yn berthnasol o hyd ac mae Amcanion yr Arfarniad o Gynaliadwyedd wedi cael eu hadolygu ac Amcan yr Arfarniad o Gynaliadwyedd ar fioamrywiaeth wedi cael ei ddiweddarau i ystyried Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016. Er bod fframwaith asesu blaenorol yr Arfarniad o Gynaliadwyedd yn dal i fod yn briodol ac er nad yw adroddiadau monitro blaenorol wedi codi materion sylweddol gyda'r fframwaith Arfarnu Cynaliadwyedd, mae'r Arfarniad o Gynaliadwyedd wedi cael ei adolygu i ystyried newidiadau deddfwriaethol ac i sicrhau bod yr arfarniad hwnnw a CDLI2 yn ystyried Cynllun Llesiant Sir Benfro a gynhyrchwyd er mwyn bodloni

gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Adroddiad cwrmpasu yw'r cam cyntaf yn y broses a chynhaliwyd ymgynghoriad â rhanddeiliaid ar hyn.

- 6.1.7 Mae'r Arfarniad o Gynaliadwyedd wedi cael ei adolygu ar gyfer CDLL2, gan gynnwys diweddariad o'r cynlluniau, polisïau a rhaglenni, a chaiff y goblygiadau perthasol eu nodi a'u hintegreiddio yn y cynllun. Mae'r Strategaeth a Ffefrir, a gyhoeddwyd ar y cyd ag Adroddiad yr Adolygiad, wedi bod yn destun Arfarniad o Gynaliadwyedd a fydd yn ffurfio rhan o'r dogfennau ymgynghori Cyn Adneuo.

7. Cydweithio a Chyd-gynlluniau

- 7.1.1 Mae Deddf Cynllunio (Cymru) 2015 yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru gyfarwyddo awdurdodau lleol i baratoi cydgynlluniau datblygu lleol. Nid yw'r pŵer yn estyn i Awdurdodau Parc Cenedlaethol. Mae elfen o ansicrwydd yn parhau ynghylch ad-drefnu llywodraeth leol a gweithio'n rhanbarthol.

- 7.1.2 Yn ôl adroddiad adolygiad Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro -

"Mae Llywodraeth Cymru wedi gofyn bod yr adolygiad yn trafod y potensial i baratoi cydgynllun gyda Chyngor Sir Penfro. Mae angen crynhoi a chasglu cysyllteddau swyddogaethol a chyd-ddibyniaeth y cymunedau yn ardal y Parc Cenedlaethol ac yn ardal gynllunio'r Cyngor.

Gweithiodd y ddau Awdurdod yn agos i baratoi tystiolaeth ar y cyd, fel sy'n briodol, gan gynnwys cydweithio ar Ddatganiadau Tir Cyffredin yn Adnau Cynllun Datblygu Lleol Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro ac ar ei Gyflwyno, i arddangos y cydweddoldeb rhwng Cynllun Datblygu Lleol Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro a'r polisïau sy'n dod i'r amlwg sydd ar y gweill wedyn ar gyfer Cynllun Datblygu Lleol y Cyngor Sir.

Byddai unrhyw gam tuag at baratoi cydgynllun yn mynnu ailasesiad sylfaenol o'r ddwy strategaeth, gyda llawer mwy o waith a thystiolaeth ategol yn ofynnol nag a ragwelir fel arfer ar gyfer adolygiad Cynllun unigol. Ar gyfer y Cyngor, byddai adolygiad cynnar a dianghenraid o'r Cynllun yn creu cost ychwanegol ddianghenraid sylweddol (adnodd staff ychwanegol) ac ar yr un pryd byddai'n arwain at ansicrwydd diwerth o ran gwneud penderfyniadau am geisiadau cynllunio wrth baratoi'r cynllun, gyda'r posibilrwydd o wynebu adolygiad cynnar pellach ar Ad-drefnu Llywodraeth Leol.

O ystyried y cefndir hwn, bydd y ddau Awdurdod yn parhau i gydweithio ar sail dystiolaeth i gefnogi gweithredu ac adolygu Cynlluniau'r ddau Awdurdod."

- 7.1.3 Mae'r ddau awdurdod wedi gweithio'n agos, a byddant yn parhau i weithio'n agos, i baratoi tystiolaeth ar y cyd, fel sy'n briodol, gan gynnwys cydweithio ar Ddatganiadau Tir Cyffredin, i arddangos cydweddoldeb rhwng Cynlluniau ar gyfnodau priodol.
- 7.1.4 Bydd y Cyngor Sir yn parhau i archwilio ac arddangos ei gydweithio â'r Awdurdod Parc Cenedlaethol ac Awdurdodau eraill, gan gynnwys Cyngor Sir Ceredigion a Chyngor Sir Caerfyrddin. Mae'r Astudiaeth Adwerthu Rhanbarthol a gomisiynwyd ar y cyd ag Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro a Chyngor Sir Ceredigion yn enghraifft o gydweithio wrth gynhyrchu tystiolaeth ranbarthol at ddibenion y CDLI. Bydd cydweithio ag awdurdodau cyfagos yn parhau. Fodd bynnag, mae cryn amrywiaeth yn yr amserlenni adolygu ar gyfer Cynghorau Sir Caerfyrddin, Ceredigion a Phenfro. Mabwysiadodd Cyngor Sir Caerfyrddin ei CDLI ym mis Rhagfyr 2014, ac mae gofyn iddo ddechrau adolygiad i sicrhau bod cynllun newydd ar waith pan ddaw ei gynllun i ben yn 2021, er bod Ceredigion wedi mabwysiadu ei Gynllun Datblygu Lleol yn 2013. Mae'r defnydd mwyaf effeithiol o adnoddau'n debygol o gael ei ganolbwyntio ar gydweithio ynghylch materion traws-ffiniol a meysydd tystiolaeth allweddol. Bydd hyn yn parhau i gynnwys Mwynau a Gwastraff. Mae gwaith ar y cyd ar Astudiaeth Cyflogaeth Ranbarthol ac Asesiad Marchnad Dai Leol wedi dechrau, a hefyd Asesiad Strategol o Ganlyniadau Llifogydd mewn partneriaeth â Cyngor Sir Caerfyrddin. Er bod paratoi CDLI ar y cyd ag awdurdodau cyfagos yn bosiblwydd tymor hir, byddai'n gofyn llawer iawn o rag-gynllunio yn ogystal â chyflwyno trefniadau llywodraethu priodol.

8. Casgliad

- 8.1.1 Er bod yr AMB blaenorol yn nodi bod polisïau'r CDLI, ar y cyfan, yn effeithiol, mae newid cyd-destunol a gofynion statudol yn nodi bod adolygiad llawn o'r CDLI yn ofynnol. Mae gofyn diwygio nifer o bolisïau a dyraniadau yn y Cynllun er mwyn adlewyrchu newidiadau cyd-destunol a thystiolaethol. Bu gofyn hefyd ailystyried y weledigaeth, yr amcanion a'r strategaeth yng ngoleuni gofynion Llesiant a barn rhanddeiliaid a chaiff y Strategaeth a Ffeirir ei chyhoeddi ar gyfer ymgynghoriad ynghyd â'r Adroddiad Adolygu hwn.
- 8.1.2 Nid yw elfennau o'r Strategaeth Ddatblygu yn cael eu cyflenwi ar hyn o bryd a dylid eu hailystyried. Mae gofyn hefyd ailystyried dosbarthiad a graddfa twf er mwyn canfod y dull mwyaf priodol o sicrhau'r cyflenwi.
- 8.1.3 Mae newidiadau cyd-destunol a pholisi, yn cynnwys cyhoeddiad disgwylledig o
- Polisi Cynllunio Cymru diwygiedig, Argraffiad 10,
 - Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru,
 - y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol,
 - diwygiadau i Lawlyfr Cynllun Datblygu Lleol 2, a

- newidiadau posibl sy'n ffurfio rhan o'r Adolygiad o Ddosbarthiadau Defnydd a Datblygu a Ganiateir.

Lle bynnag y bo'n ymarferol, ymdrinnir â'r rhain yn ystod Adolygiad o'r Cynllun.

8.1.4 Dilynir gweithdrefn ddiwygio lawn wrth baratoi CDLI newydd.

Atodiadau

Atodiad 1: Paratoi'r Adroddiad

Roedd gwaith paratoi'r adroddiad hwn yn cynnwys

9. Adolygu'r Sail Dystiolaeth allweddol gan gynnwys papurau cefndir i'r CDLI
 10. Seminarau gydag Aelodau a rhanddeiliaid eraill am yr AMB
 11. Newidiadau cyd-destunol gan gynnwys Polisi Cynllunio Cenedlaethol a newidiadau deddfwriaethol
 12. Ystyried adroddiadau AMB 1, 2, 3 a 4 ar gyfer CDLI yr Awdurdod.
- Mae AMB 4 wedi'i baratoi ond nid yw wedi'i gyhoeddi adeg yr adroddiad hwn.

Ymgysylltu â rhanddeiliaid hyd yma

Pwy	Pryd
Aelodau CSP	Cyflwyniad Seminar Aelodau Astudiaeth Gallu Adwerthu Rhanbarthol De-orllewin Cymru 10 Chwe 2017 Seminar Aelodau: A ydy'r polisïau'n gweithio? 8 Mawrth 2017 Sesiwn Wybodaeth Cynllunio i Aelodau (gan gynnwys y Cynllun Datblygu Lleol) 31 Mai / 14 Mehefin 2017 Seminar – adborth ar ymgynghoriadau 22 Ionawr 2018 Seminar i Aelodau ar Faterion, Amcanion a Gweledigaeth 23 Ebrill 2018 Seminar ar Lefelau Twf ac opsiynau'r Strategaeth Ofodol 16/7/18
Swyddogion CSP	Cyfarfod i drafod a ydy polisïau'r cynllun yn gweithio 23/2/17 gyda Swyddogion Rheoli Datblygiad Seminar i Rhanddeiliaid ar Faterion, Amcanion a Gweledigaeth 26 Ebrill 2018 Seminar ar Lefelau Twf ac opsiynau'r Strategaeth Ofodol 19/7/18
<i>Rhanddeiliaid</i>	Gweithyd i Rhanddeiliaid Allweddol – Materion, Amcanion a Gweledigaeth 26 Ebrill 2018 Seminar ar Lefelau Twf ac opsiynau'r Strategaeth Ofodol 19/7/18
Cynghorau Tref a Chymuned	Sesiynau Ymgysylltu 6/12/18, 13/12/18, 18/7/18, 24/7/18 (sesiynau dydd a gyda'r nos)

<i>Gweithgor Sipsiwn a Theithwyr (Grŵp Llywio GTAA)</i>	5/10/17, 5/6/18, 17/9/2018
<i>Gweithgor Twristiaeth</i>	
<i>Gweithgor Tai Fforddiadwy</i>	
Fforwm Asiantau Sir Benfro	Seminarau adborth AMB 21/9/15, 27/9/16, 3/10/17. Fforymau hefyd ar 13/2/18, 22/5/18
Cyngor Sir Caerfyrddin a Cyngor Sir Ceredigion, Awdurdodau Rhanbarth De-orllewin Cymru, CS Powys	Trafodaeth gyda swyddogion gyda chyfrifoldeb penodol am bwnc rhanbarthol e.e. Mwynau (Trafodaeth ranbarthol ar weithio ar y cyd ar gyfer tystiolaeth Gymraeg Gweithio'n rhanbarthol a chaffael SFCA ar gyferardaloedd CSP a CS Caerfyrddin) Astudiaeth Cyflogaeth Ranbarthol LHMA Rhanbarthol
Cyfarfodydd Rhanddeiliaid Allweddol	Dŵr Cymru 16/1/18 CNC 4/12/18
Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro	Cyd-gyfarfodydd Swyddogion Tach 2016, Medi 2017, Ionawr 2018, 19 Mehefin 2018, 23 Hydref 2018
AMB (gweler AMB 1, 2, 3 a 4, Adrannau 5: Adborth o Ddigwyddiadau Ymgynghori)	Adborth rhanddeiliaid Aelodau 25/9/14, 14/9/15, 20/9/16 (26/9/17) Rhanddeiliaid 26/9/14, 22/9/15, 21/9/16 (19/9/17) Cyhoeddir AMB5 ar gyfer adborth rhanddeiliaid a'i adrodd i'r Cabinet. Ystyrir bod y dull hwn yn briodol tra bo'r CDLI yn cael ei adolygu.

Atodiad 2: Crynodeb o Berfformiad yr Adroddiad Monitro Blynyddol

Mae'r crynodeb isod yn cyfeirio at berfformiad AMB5 sef yr AMB a baratowyd yn ddiweddaraf ac sy'n ymdrin â'r cyfnod 1 Ebrill 2017 i 31 Mawrth 2018.

Perfformiad

Mae targedau polisi yn cael eu cyflawni	GWYRDD
Nid yw targedau polisi'n cael eu cyflawni ond nid oes unrhyw bryderon am weithredu'r polisi	MELYN
Nid yw targedau polisi'n cael eu cyflawni ac mae hyn yn codi pryderon am weithredu'r polisi	COCH
Ni nodwyd dim targed na sbardun yn y fframwaith monitro	AMHERTHNASOL

Dangosydd CDLI	Targed	Sbardun	Canlyniad
(Craidd) Maint y datblygiad (yn ôl categori datblygiad TAN 15 paragraff 5.1) a ganiatawyd yn ardaloedd gorlifdir C1 a C2 ac sydd fel arall heb fodloni'r holl brofion TAN 15 (paragraff 6.21 - v).*	Bod datblygiad ym mharthau C1 a C2 yn unol â darpariaethau TAN 15.	Mwy nag 1 gymeradwyaeth cyn pen 1 flwyddyn o ddatblygiad ym mharthau C1 a C2 yn groes i ddarpariaethau TAN 15.	GWYRDD
Amcan Strategol: Gwellu mynediad at nwyddau a gwasanaethau (I)			
Nifer a chyfran y caniatâd cynllunio tai ar lefelau gwahanol o'r hierarchaeth anheddu.	Bod 60% o ganiatâd yn y Trefi Ffocws.	Llai na 50% o'r caniatâd mewn Trefi Ffocws dros gyfnod o 3 blynedd.	MELYN
Ardal o dir a ddiogelwyd at gynigion cysylltiedig â chludiant wedi'i cholli i ddatblygiad.	0%	Bydd gofyn ymchwilio i unrhyw golled.	GWYRDD
Newid net mewn darparu cyfleusterau cymunedol o ganlyniad i ganiatâd cynllunio (arwynebedd a math).	Cadw cyfleusterau allweddol	Colli dros 3 chyfleuster cymunedol mewn unrhyw gyfnod 3 blynedd.	MELYN (colled net 0.13Ha)
Lefel gwasanaethau mewn aneddiadau gwledig.	Nid yw gwasanaethau mewn aneddiadau yn yr hierarchaeth anheddu yn llawer is nag yn Arolwg	Monitro yn yr Adolygiad Cynllun (2017) - byddai angen ymchwilio ymhellach i newid 10% yn nifer yr aneddiadau yn	GWYRDD

	Cyfleusterau Gwledig 2008	cyflawni lefel pentref gwasanaethol	
(Craidd) Gallu cynhyrchu (MW) y datblygiadau ynni adnewyddadwy a ganiatawyd.	Dim targed ond gellid gosod un at ddibenion monitro'r CDLI, gan ddefnyddio'r fethodoleg a nodir ym Mhecyn Cymorth Ynni Adnewyddadwy Llywodraeth Cymru.	Dim sbardun wedi'i nodi.	AMHERTHNASOL
Maint y mannau agored (m2) a ganiatawyd mewn perthynas â nifer cyffredinol yr anheddau a ganiatawyd.	Darparu mannau agored cyhoeddus ar gyfradd o fwy na 25% islaw'r gofyniad safonol (fel y nodwyd yn y Canllawiau Cynllunio Ategol)	Darparu mannau agored cyhoeddus ar gyfradd o fwy na 35% islaw'r gofyniad safonol (fel y nodwyd yn y Canllawiau Cynllunio Ategol) yn yr Adolygiad o'r Cynllun.	COCH
Amcan Strategol: Adeiladu ar leoliad strategol y Sir ar gyfer datblygiad cysylltiedig ag ynni a phorthladd (E)			
Caniatâd cynllunio a roddwyd i ddatblygu cyflogaeth ar safleoedd a ddyrannwyd mewn ardaloedd porthladd a nodwyd (Blackbridge, Aberdaugleddau, safle hen ffatri Dewhirst yn Wdig a Pharrog Wdig).	100% erbyn diwedd cyfnod y Cynllun	50% heb ganiatâd cynllunio yn yr Adolygiad o'r Cynllun (2017). Naratif blynyddol i ddisgrifio cynnydd tuag at gyflenwi.	COCH
Cynnydd tuag at gyflenwi cynlluniau cludiant wedi'i ddiogelu.	Cyflenwi pob un erbyn 2021.	Os nad oes cyllid wedi'i sicrhau am brosiect erbyn yr Adolygiad o'r Cynllun (2017).	MELYN
Amcan Strategol: Cefnogi datblygiad rôl unigryw trefi Sir Benfro, yn enwedig yn Hwb Aberdaugleddau (F) ac Adfywio canol trefi a Chynnal a chryfhau'r economi wledig a threfol (G)			
Nifer y ceisiadau a gymeradwywyd yn groes i bolisiâu SP 4, SP 14, GN.12, GN.14	0	Mwy na 4 cais cynllunio wedi'u cymeradwyo yn groes i bolisi sengl dros 4 blynedd.	GWYRDD

(Craidd) Maint y datblygiad adwerthu, swyddfa a hamdden mawr (sq m) a ganiatawyd yng nghanol trefi a fynegwyd yn ganran o'r holl ddatblygiad mawr a ganiatawyd. (TAN 4)*	100% (ffigur i hepgor cynlluniau sy'n safleoedd a ddyrannwyd y tu allan i ganol trefi)	90% o'r targed.	MELYN
Lefel arwynebedd llawr datblygiad adwerthu a ganiatawyd y tu allan i ganol trefi heblaw cynlluniau sy'n perthyn i Bolisi GN.15 Adwerthu ar Raddfa Fach neu GN.10 (siop fferm).	0%	Naratif ar unrhyw gynlluniau heb eu caniatáu o dan Bolisi GN.15 neu GN.10.	MELYN
Cynnydd tuag at gyflenwi dyraniadau Adwerthu.	Cyflenwi 100% erbyn diwedd cyfnod y Cynllun.	Unrhyw ddyraniadau sydd heb gael caniatâd cynllunio erbyn yr Adolygiad o'r Cynllun (2017)	COCH
Newid presenoldeb defnyddiau A1 (niferoedd uned ac arwynebedd llawr) mewn ffyrntiau adwerthu pennaf.	Bod o leiaf 66% o'r ffyrntiau llinol yn ddosbarth defnydd A1 mewn ffyrntiau pennaf.	Llai na'r targed.	COCH
Canran o unedau gwag llawr gwaelod ym mhob Canol Tref (o fewn ffin y CDLI a nodwyd).	Nid yw lefelau gwagle yn uwch o gwbl na'r cyfartaledd cenedlaethol (y DU).	Lefelau gwagle 5% yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol (y DU).	COCH
Amcan Strategol: Datblygu economi ymwelwyr o ansawdd ar sail ymdeimlad unigryw o le ac amgylchedd naturiol ac adeiledig eithriadol (H)			
Nifer y ceisiadau a gymeradwywyd yn groes i bolisiâu SP5, GN.16 a GN.17, GN.18 a GN.19 (gan gynnwys ar apêl).	Dim ceisiadau wedi'u cymeradwyo'n groes i'r polisiâu.	Mwy na 4 cymeradwyaeth mewn 4 blynedd.	MELYN (2 gymeradwyaeth o dan GN.19)
Crynodeb o Amcan Strategol Datblygu economi ymwelwyr o ansawdd ar sail ymdeimlad unigryw o le ac amgylchedd naturiol ac adeiledig eithriadol (H)			
Amcan Strategol: Cynnal a gwella'r economi wledig a threfol (C)			
(Craidd) Tir cyflogaeth newydd a ddatblygwyd	Wedi datblygu 100 ha erbyn 2021	Wedi datblygu llai na 45ha erbyn 2017.	GWYRDD

